
# Llythrennedd a'r Daith i'r Ysgol

## Pecyn adnoddau ar gyfer yr ystafell ddosbarth

**Ddatblygu Llafaredd Blwyddyn 8 drwy bwnc bywyd go iawn y daith i'r ysgol**



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.sustrans.org.uk

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Adnoddau AM DDIM

**Adnodd am ddim yw hwn a ddatblygwyd gan Sustrans Cymru. Mae Sustrans yn elusen flaenllaw sy'n galluogi pobl i ddewis teithiau iachach, rhatach a glanach. Rydym yn gweithio gyda miloedd o ysgolion ledled y DU, gan alluogi plant i deithio'n llesol a diogel.**



## Sustrans Cymru

Sustrans yw'r elusen sy'n galluogi pobl i deithio ar droed, ar feic neu drafnidiaeth gyhoeddus am fwy o'r teithiau a wnawn bob dydd. Mae ein gwaith yn ei gwneud hi'n bosibl i bobl ddewis teithiau iachach, glanach a rhatach, gyda gwell mannau a gofodau i symud drwyddynt a byw ynddynt.

Mae ein hadnoddau, sydd wedi'u cysylltu i'r cwricwlwm, wedi'u cynllunio gan athrawon i alluogi pobl ifanc i ffurfio barn gytbwys fel y gallant wneud dewisiadau gwybodus am y ffyrdd y maent yn teithio.

Cewch ragor o wybodaeth am y gwaith a wnawn gydag ysgolion a phobl ifanc yng Nghymru yng nghefn y llyfryn hwn neu yn www.sustrans.org.uk/wales

## Cysylltwch â ni:


Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE

**Ffôn:** 029 2065 0602
**Ffacs:** 029 2065 0603
**E-bost:** sustranscymru@sustrans.org.uk


Llywodraeth Cymru
Welsh Government


Mae'r datblygiad, y cynhyrchiad a'r staff i gefnogi'r adnodd hwn wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru.


YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Llythrennedd a'r Daith i'r Ysgol

## Adnodd FfLlRh (Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol)

Ymgysylltwch ddisgyblion Blwyddyn 8 yng Nghymru gyda'r adnodd addysgol cyffrous newydd hwn a gynlluniwyd ar gyfer disgyblion gan Sustrans Cymru. Mae'r cynllun gwaith hwn yn defnyddio cyd-destun go iawn y daith i'r ysgol er mwyn datblygu pob un o ganlyniadau Llafaredd Blwyddyn 8 fel y nodir yn y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd.

Mae'r llyfryn hwn, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer pobl ifanc yng Nghymru ac sy'n defnyddio ystod ysgogol o destunau sy'n uniongyrchol berthnasol i'w bywydau, yn cynnwys 10 cynllun gwers a'r holl adnoddau sydd eu hangen i gefnogi eu cyflwyniad yn yr ystafell ddosbarth. Caiff cyfleoedd ar gyfer gwahaniaethu eu hamlygu drwy gydol yr adnodd ac mae'r dalenni gwaith electronig yn rhai y gellir eu haddasu. Argymhellwn ddefnyddio'r adnodd fel cynllun o 6 i 10 gwers, neu addysgu Gwers 3 fel gwers ar ei phen ei hun.

Gallwch gael fersiynau electronig o'r cynlluniau gwersi, ffilmiau, sleidiau PowerPoint a dalenni gwaith yn www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm

## Pam defnyddio'r adnodd hwn?

*"Mae'r adnodd diweddaraf hwn gan Sustrans yn cynorthwyo athrawon i gynnig cyfleoedd dysgu hynod ddiddorol, ystyrlon ac apelgar, sy'n rhoi'r cyd-destun gorau i ddatblygu'r sgiliau llythrennedd a rhifedd hanfodol ar gyfer ein holl ddysgwyr yng Nghymru."* Paul Booth, Prif Ymgynghorydd, Rhaglen Gymorth Genedlaethol – Llythrennedd a Rhifedd.

- Meithrin gallu disgyblion i fynd i'r afael â disgwyliadau'r FfLlRh a chynyddu gallu athrawon i gyflwyno dysgu cysylltiedig â'r FfLlRh.
- Rhoi cyd-destun bywyd go iawn a pherthnasol ar gyfer dysgu.
- Rhoi tystiolaeth bod y FfLlRh yn cael ei ddefnyddio i 'integreiddio llythrennedd a rhifedd ... beth bynnag fo'r pwnc' a bod ysgolion yn 'sicrhau bod y FfLlRh wrth wraidd ei gweithgarwch cynllunio'r cwricwlwm.' Canllaw ar Gynllunio'r Cwricwlwm FfLlRh, Llywodraeth Cymru, 2013).
- Darparu'r holl adnoddau ystafell ddosbarth sydd eu hangen ar athrawon i gyflwyno cynllun i ddatblygu ac asesu llafaredd disgyblion; neu gellir ei ddefnyddio ar gyfer gwersi unigol.
- Cyfuno ffilmiau, delweddau a thestunau byr gyda thechnegau bywiog.
- Cysylltu i ystod o feysydd cwricwlaidd yn CA3, gan gynnwys rhifedd, Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth, ABCh ac ADCDF.
- Rhoi tystiolaeth ar gyfer Dyfarniadau Ysgolion Iach ac Eco-ysgolion.

## Beth mae athrawon yng Nghymru yn ei ddweud am yr adnodd hwn:

*"Dyma adnodd gwreiddiol a gwerthfawr sy'n sicr o ennyn diddordeb disgyblion i feddwl a thrafod y byd o'u cwmpas." Ms Meleri Owen, Ysgol Glantaf, Caerdydd.*

*"Mae'r adnodd hwn yn ddefnyddiwr-gyfeillgar, yn un y gellir ei addasu ac mae'n berthnasol ar draws y cwricwlwm. Mae'n bodloni nifer o linynnau'r FfLlRh ac mae'n apelgar a heriol gyda digon o gwmpas ar gyfer gwahaniaethu. Byddai'r ffocws ar gynaliadwyedd yn ei wneud yn brosiect ADCDF neu brosiect pontio gwych."* Ms Lianne Francis, Ysgol Fitzalan, Caerdydd.

## Beth mae disgyblion yn ei ddweud am adnoddau FfLlRh Sustrans:

*"Mae'n rhaid i chi wneud peth gwaith ond ar y cyfan mae'n waith llawn hwyl!"*
*Disgybl, Ysgol Gymunedol Plascrug.*

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Lawrlwytho AM DDIM

**Ewch i www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm er mwyn lawrlwytho copïau electronig AM DDIM o bopeth sydd ei angen arnoch. Yno fe ddowch o hyd i'r cyflwyniad PowerPoint, ffilmiau, pob cynllun gwers, dalenni gwaith ac adnoddau asesu. Gall athrawon addasu ein holl adnoddau dosbarth er mwyn galluogi gwahaniaethu a dysgu personol.**




**Fel y gwelwch o'r sleidiau blasu sydd wedi eu harddangos, mae'r PowerPoint yn defnyddio nifer o ddelweddau, siartiau data a chwestiynau i symbylu trafodaeth a strwythur gweithgareddau. Defnyddiwch y sleidiau fel yr esbonnir yn y cynlluniau gwersi.**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Nodiadau Athrawon

## Materion dadleuol

Mae'r gweithgareddau yn y cynllun hwn yn herio disgyblion i feddwl ac yn eu galluogi i lunio eu barn eu hunain. Gall rhai materion fod yn ddadleuol, er enghraifft newid hinsawdd, neu gallant sbarduno teimladau sensitif, er enghraifft rhai'n ymwneud â delwedd y corff, iechyd a ffitrwydd, neu ddiogelwch ar y ffyrdd a damweiniau. Mae'r gweithgareddau dysgu wedi eu strwythuro i roi cyfleoedd i'r disgyblion wneud cyfraniadau ystyrlon. Gall athrawon arwain disgyblion i sefydlu naws cynhyrchiol yn y dosbarth drwy sefydlu rheolau sylfaenol ar gyfer trafod er mwyn sicrhau nad yw cyfraniadau disgyblion yn cynnwys sylwadau personol neu fychanol. Gall athrawon hefyd ei gwneud hi'n glir bod gan ddisgyblion yr hawl i archwilio a mynegi beth maent yn ei feddwl a bod gan bob disgybl hefyd y cyfrifoldeb i gefnogi'r hawl hwn ar gyfer eraill yn y dosbarth.

## Datblygu llafaredd

Mae'r gweithgareddau dysgu wedi eu cynllunio i alluogi datblygiad pob sgil Llafaredd Blwyddyn 8 yn y FfLlRh. Gan fod y prosiect yn datblygu sgiliau a gwybodaeth dros gyfres o wersi mae'n syniad da i'r disgyblion gadw'r taflenni a'r dalenni gwaith y maent yn eu defnyddio (er enghraifft mewn llyfr gwaith) fel y gallant gyfeirio'n ôl atynt yn y dasg asesu derfynol. Mae pob gwers yn nodi canlyniad llafaredd sy'n amlwg yn ganolbwynt gweithgareddau ond bydd y cynllun hefyd yn datblygu fesul cam yr ystod o ganlyniadau llafaredd ym mhob gwers. Bydd gweithgareddau hefyd yn caniatáu i ddisgyblion ddatblygu sgiliau y gallant eu trosglwyddo i'w gwaith ysgrifenedig: er enghraifft ymestyn geirfa; ffurfio brawddegau llafar gan ddefnyddio dyfeisiau iaith; strwythur a golygu testunau cyfan.

## Teithio a hawliau plant

Yn ogystal â datblygu canlyniadau'r FfLlRh, bwriedir i'r gweithgareddau yn yr adnodd hwn yn rhoi'r wybodaeth i bobl ifanc archwilio sut mae teithio yn effeithio ar eu hawliau. Mae galluogi pobl ifanc i wneud eu teithiau eu hunain yn caniatáu i bobl ifanc yng Nghymru fwynhau eu hawliau, fel y nodir yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Mae cymuned sy'n cefnogi pobl ifanc i gerdded a beicio yn cefnogi buddiannau gorau'r plentyn (Erthygl 3): nid yn unig mae teithio llesol yn galluogi pobl ifanc i gyrraedd yr ysgol yn barod ac yn effro i ddysgu, mae hefyd yn effeithio ar hawl pobl ifanc i ddatblygiad iach (Erthygl 6) a'u hawl i chwarae a hamdden (Erthygl 31). Gyda chwarter cartrefi Cymru heb fynediad at gar, mae cefnogi cerdded a beicio yn ateb y gall pob plentyn yng Nghymru elwa ohono. Mae rhoi'r gallu i bobl ifanc gyrchu eu hardal leol ac ystod lawn eu hawliau, waeth beth fo'u cefndir ariannol, yn rhan bwysig o waith Sustrans gyda chymunedau yng Nghymru.

## Gwerthus

Adnodd am ddim yw hwn ac mae cael adborth gennych chi yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n cyllido a'n rhaglenni addysgol. Ar gyfer pob set o'r holiaduron *Cyn* ac *Wedyn* wedi eu cwblhau y byddwn yn eu derbyn byddwn yn afon **tystysgrifau ar gyfer eich holl ddisgyblion** ac yn cynnwys enw eich ysgol mewn cystadleuaeth i **ennill ymweliad ac arddangosiad gan Matti Hemming, y pencampwr BMX a daliwr record byd.** Er mwyn cael cyfle i ennill rhowch hwy yn y post a'u hanfon i'r cyfeiriad sydd ar y ffurflen.



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Cysylltiadau i'r Cwricwlwm

Yn ogystal â datblygu holl ganlyniadau llafaredd y FfLlRh ar gyfer Blwyddyn 8, mae'r adnodd hwn hefyd yn datblygu canlyniadau darllen, ysgrifennu a rhifedd. Mae ganddo gysylltiadau trawsgwricwlaidd gyda Saesneg, ABCh, Daearyddiaeth, Gwyddoniaeth a'r fframwaith ADCDF. Gellir cyflwyno'r cynllun naill ai fel cyfres o 6 gwers neu fel cyfres o 10 gwers. Gallwch hefyd ddefnyddio Gwers 3 ar ei phen ei hun.

## Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol (FfLlRh)

**Llafaredd**

**8.LLS2** cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy **8.LLS4** ymateb i farn eraill yn gadarnhaol a phriodol o gael eu herio **8.LLS5** amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl **8.LLS6** Datganiad cyfrwng Cymraeg: defnyddio ystod o dreigladau'n gywir (treigladau meddal, trwynol a llaes) yn eu cyd-destun **8.LLG1** ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol **8.LLG3** gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio **8. LLC1** cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd **8.LLC2** trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf.

**Ysgrifennu**

**8.YY1** addasu cyflwyniad y deunyddiau yn ôl bwriad yr ystyr a'r effaith, e.e. dewis faint o fanylion sy'n angenrheidiol i argyhoeddi **8.YY3** wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben **8.YY5** defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio **8.YS2** dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol **8.YI2** defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc

**Darllen**

**8.DS5** defnyddio ystod o strategaethau, e.e. darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i gipddarllen (sgimio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u llithr ddarllen (sganio) am wybodaeth fanwl **8.DD1** canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt **8.DD4** defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr **8.DD5** gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a'u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy'n cytuno â'i gilydd neu sy'n gwrth-ddweud ei gilydd **8.DYD3** crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol **8.DYD5** adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud

**Rhifedd**

**CA3.1** trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd **CA3.16** dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol **8.D3** dehongli diagramau a graffiau er mwyn cymharu setiau dat

## CA3 Daearyddiaeth

Sgiliau: Deall Lleoedd, Yr Amgylchedd a Phrosesau: 1, 3;
Ystod: amgylchoedd dan fygythiad, dinasyddion fory; Cyfathrebu: 1.

## ABCh

Cyfleoedd i fodloni canlyniadau a restrir mewn Dinasyddiaeth Weithredol;
Iechyd a Lles Emosiynol; Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang.

## CA3 Gwyddoniaeth

Sgiliau: Cyfathrebu 2; Ystod 7; Ystyried 4, 5, 6, yn arbennig 'nodi ac asesu tuedd a pherthnasedd'.

## ADCDF

Cyfleoedd i fodloni canlyniadau a restrir mewn Dewisiadau a Phenderfyniadau;
Iechyd; Amgylchedd Naturiol; Newid Hinsawdd.

# Gwersi

- **Mae'r gwersi craidd mewn gwyrdd. Addysgwch y rhain ar gyfer cynllun 6 gwers.**
- **Mae'r gwersi estynnol mewn oren, ychwanegwch hwy yn y drefn isod ar gyfer cynllun 10 gwers.**
- **Ar gyfer gwers unigol addysgwch Wers 3.**

**Ar gyfer yr holl adnoddau sydd eu hangen arnoch gweler tudalen 29**

**Gwers 1: Pennaeth yn Gwahardd Ceir!** t. 9-10
Cyflwynwch y prosiect gyda gweithgareddau trafod mewn parau a grwpiau a ffilm fer.

**Gwers 2: Cost y Daith i'r Ysgol** t. 11-12
Defnyddiwch bosteri ac erthyglau byr er mwyn i'r disgyblion ymchwilio materion economaidd ac amgylcheddol sy'n ymwneud â'r daith i'r ysgol.

**Gwers 3: Beiciau yn Amsterdam** t. 13-14
Defnyddiwch ffilm a gweithgareddau sy'n canolbwyntio'n benodol ar wrando er mwyn cyflwyno'r disgyblion i ddewis amgen i'r diwylliant car. Gellir ei haddysgu fel gwers ar ei phen ei hun.

**Gwers 4: Ffyrdd a Hawliau** t. 15-16
Mae delweddau, diagramau ystadegol a thasgau trafod yn galluogi eich dosbarth i ystyried sut mae defnydd o'r ffordd yn effeithio ar hawliau plant.

**Gwers 5: Arian yn Siarad GWERS ESTYNNOL** t. 17-18
Mae'r dechneg dosbarth cyfan gyffrous hon yn datblygu sgiliau siarad a thrafod disgyblion wrth iddynt gystadlu am £10,000 dychmygol!

**Gwers 6: Ysgrifennu Areithiau GWERS ESTYNNOL** t. 19-20
Defnyddiwch destun enghreifftiol a sgaffaldiau ysgrifennu er mwyn galluogi'r disgyblion i ysgrifennu areithiau fel unigolion neu grwpiau.

**Gwers 7: Perfformio a Gwrando GWERS ESTYNNOL** t. 21-22
Personolwch dargedau llafaredd y disgyblion a datblygu eu gallu i ddefnyddio gwrthddadleuon mewn trafodaeth.

**Gwers 8: Dadl a Phleidlais** t. 23-24
Defnyddiwch ddeunyddiau asesiad athro a chyfoedion i asesu grwpiau yn erbyn eu meini prawf llwyddiant eu hunain.

**Gwers 9: Hunanasesu ac Ystyried** t. 25-26
Defnyddiwch dasgau grŵp rhyngweithiol ac ystyriaeth unigol i werthuso datblygiad sgiliau a barn y disgyblion.

**Gwers 10: Cymuned yr Ysgol GWERS ESTYNNOL** t. 27-28
Dathlwch ddysgu'r disgyblion a dylanwadwch ar ddiwylliant yr ysgol drwy greu arddangosfeydd i'w cyflwyno i gymuned yr ysgol.

# Gwersi



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Gwers 1. Pennaeth yn Gwahardd Ceir!

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod bod ystod o ddulliau trafnidiaeth i'w cael.
2. Deall bod gwahanol ddulliau trafnidiaeth yn effeithio ar bobl yn wahanol.
3. Gwerthuso effaith gwahanol ddulliau trafnidiaeth.

**FfLlRh** **8.LLS5** amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl
**8.LLG1** ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol
**Rhifedd CA3.1** trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd **CA3.16** dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol

## Adnoddau

- Sleidiau 1 – 7 y Cyflwyniad PowerPoint.
- Ffilm: *Pa opsiwn trafnidiaeth yw'r iachaf?*
  Mae gan y ffilm lais-drosodd Cymraeg. Dewch o hyd i'r ffilm yma: www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm; ar y CD; www.youtube.com/user/SustransLibrary; neu drwy e-bost schoolswales@sustrans.org.uk
- 30x Taflen Waith 1: Meddwl, Paru, Rhannu!
- 6x Taflen Waith 2: Diemwnt 9 wedi ei dorri fel set o gardiau ar gyfer pob grŵp.
- 1x Taflen Waith 3: Cardiau Cymeriadau wedi eu torri'n set o gardiau ar gyfer y dosbarth.
- 6x Taflen Waith 4: Beth fyddent yn ei ddweud? (1 i bob grŵp).
- 30x Taflen Waith 5: Holiadur 'Cyn'.

## Gwahaniaethu

- Ar Gyfer y Llai Hyderus: rhowch grŵp cymeriad prosiect mwy hygyrch iddynt, er enghraifft: Disgyblion, Rhieni, Athrawon Ymarfer Corff. Stopiwch y ffilm er mwyn cyfeirio disgyblion at wybodaeth allweddol.
- Ar Gyfer y Mwy Hyderus: rhowch grŵp cymeriad prosiect mwy heriol iddynt, er enghraifft: Heddlu Lleol; Nyrsys Ysgol; Trigolion Lleol. Defnyddiwch y ffilm i annog disgyblion mwy galluog a thalentog i ddatblygu meddwl beirniadol drwy ystyried methodoleg yr arbrawf yng ngoleuni diben y ffilm.

## Dechreuad Cyflwyno'r Datganiad 5 munud

- Dangoswch Sleid 2 y PowerPoint: "Mae'r Pennaeth wedi penderfynu gwahardd pob cerbyd rhag dod o fewn milltir i'r ysgol".
- Cyflwynwch y prif ddatganiad hwn i ddisgyblion fel senario bywyd go iawn ar gyfer ymatebion gonest.
- Anogwch drafodaeth ddosbarth ar unwaith, nodwch y geiriau allweddol a'r emosiynau a ddangosir.

**Cyngor da:** Stopiwch y ffilm i drafod methodoleg yr arbrawf gyda disgyblion mwy galluog a thalentog a datblygu meddwl beirniadol ar gyfer gwyddoniaeth.

## Prif Weithgaredd Sefydlu Grwpiau Prosiect a Chymeriadau 40 munud

- Dosbarthwch Daflen Waith 1: Meddwl, Paru, Rhannu i'r disgyblion.
- Dangoswch 6 eiliad o'r ffilm *Pa opsiwn trafnidiaeth yw'r iachaf?* Mae gan y ffilm lais-drosodd Cymraeg. Dangosir dwy ffaith ar y sgrin. Stopiwch y ffilm a thrafodwch y ddwy ffaith hon gyda'r dosbarth. Gofynnwch i'r disgyblion nodi rheswm posibl am benderfyniad y Pennaeth yn y cylch meddwl.
- Parhewch i ddangos y ffilm gan ofyn i'r parau ychwanegu rhesymau newydd am benderfyniad y Pennaeth yn eu cylch meddwl. Os bydd angen, stopiwch y ffilm bob hyn a hyn i roi cyfle i'r disgyblion nodi syniadau.
- Ar ôl y ffilm gofynnwch i'r parau rannu'r nodiadau a wnaethant yn y cylch meddwl ac i nodi syniadau newydd yn y cylch paru. Casglwch adborth o ymatebion parau i'r dosbarth, disgyblion i nodi syniadau dosbarth yn y cylch rhannu (gweler nodyn gwahaniaethu).
- Esboniwch i'r disgyblion nad yw hwn mewn gwirionedd yn benderfyniad y mae'r Pennaeth wedi ei wneud ond gallai fod yn benderfyniad i ysgol yng Nghymru yn y dyfodol. Dangoswch Sleid 3 a gofynnwch i'r dosbarth: **pam** efallai y cafodd y Ddeddf Teithio Llesol ei phasio? **Sut** maent yn meddwl y gallai effeithio arnynt hwy?
- Dangoswch ac esboniwch Sleidiau 4–5, sy'n amlinellu'r prosiect a'r asesiad.
- Rhannwch y dosbarth i chwe grŵp o 4-5 disgybl. Rhowch un cerdyn cymeriad i bob grŵp (gweler y nodyn gwahaniaethu). Dywedwch wrth y disgyblion y byddant, yn ystod y prosiect hwn, yn gweithio yn y grwpiau hyn i ddatblygu dadleuon y cymeriadau a roddwyd iddynt. (D.S. Y grwpiau cymeriad yw: Disgyblion Blwyddyn 8; Athrawon Ymarfer Corff; Rhieni; Nyrsys Ysgol; Heddlu Lleol; Trigolion Lleol).
- Dosbarthwch y cardiau wedi eu torri allan o Daflen Waith 3: Diemwnt 9 (1 i bob grŵp).
- Dangoswch Sleid 6, esboniwch y gweithgaredd Diemwnt 9 a rhowch 2 funud i'r disgyblion ei gwblhau.
- Ar ddiwedd y gweithgaredd, gofynnwch i'r grwpiau ystyried a ydynt yn meddwl y bydd eu cymeriadau yn dadlau **o blaid** neu **yn erbyn** y datganiad a nodi'r rhesymau dros y penderfyniad hwn ar Daflen Waith 4: Beth fyddent yn ei ddweud?

## Dosbarth Cyfan 15 munud

- Casglwch adborth o'r rhesymau allweddol y mae grwpiau wedi eu nodi am farn eu cymeriadau. Dywedwch wrth y disgyblion y byddant dros yr ychydig wersi nesaf yn ymchwilio'r materion sy'n ymwneud â'r daith i'r ysgol er mwyn datblygu sut bydd eu cymeriadau yn dadlau, a byddant yn ychwanegu gwybodaeth newydd i Ddalen Waith 4.
- Dangoswch Sleid 7 a dosbarthwch Daflen Waith 4: Holiadur 'Cyn'. Gofynnwch i'r disgyblion eu llenwi ac anfonwch hwy yn y post ar ddiwedd y prosiect er mwn derbyn tystysgrifau a'r cyfle i ennill arddangosiad sioe driciau gan bencampwr BMX ar gyfer yr ysgol.

## Gwaith Cartref (dewisol)

- Gofynnwch i ddisgyblion restru'r pethau maent yn eu **hoffi** a **ddim yn eu hoffi** am eu taith bresennol i'r ysgol.

**Casglwch holiaduron y disgyblion i'w hanfon ar ddiwedd y prosiect. Bydd pob disgybl yn derbyn tystysgrif a bydd yr ysgol yn cael cyfle i ennill arddangosiad triciau gan bencampwr BMX.**

**Cyngor da:** Sicrhewch fod y disgyblion yn cadw Taflen Waith 4 yn ddiogel fel y gallant ei defnyddio i goladu rhesymau a gwybodaeth allweddol.

# Gwers 2. Cost y Daith i'r Ysgol

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Deall bod dewis trafnidiaeth yn effeithio ar yr amgylchedd ac ar iechyd.
2. Gwerthuso gwahanol flaenoriaethau wrth wneud penderfyniadau.

**FfLlRh** **8.LLS5** amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl.
**8.LLG1** ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol.
**8.DD1** canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt.
**8.DD4** defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr.
**8.DD5** gwneud cysylltiadau rhwng testunau, eu themâu a'u cynnwys ffeithiol ac adnabod unrhyw bwyntiau sy'n cytuno â'i gilydd neu sy'n gwrth-ddweud ei gilydd.
**8.DYD3** crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol.
**Rhifedd CA3.1** trosglwyddo sgiliau mathemategol ar draws y cwricwlwm mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd bob dydd.

## Adnoddau

- Sleidiau 8–13 y Cyflwyniad PowerPoint.
- 30x Taflen Waith 6: Sgwariau Rhesymu.
- 30x Taflen Waith 7: Testunau Ffynhonnell.
- 30x Taflen Waith 8: Dau Syniad A NEU Daflen Waith 9: Dau Syniad B (gweler gwahaniaethu).

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: defnyddiwch Daflen Waith 8: Dau Syniad A. Mae hefyd yn bosibl lleihau swm y darllen drwy ofyn i'r disgyblion ganolbwyntio ar un testun.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: defnyddiwch Daflen Waith 9: Dau Syniad B. Gallwch hefyd ychwanegu tasg estynnol i'r gweithgaredd dosbarth cyfan drwy ofyn i grwpiau baratoi ateb mwy swmpus yn rôl eu cymeriad er mwyn esbonio pam y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r pwyntiau allweddol a nodwyd.

## I Ddechrau    Dadansoddiad Poster    20 munud

- (Dewisol: os gwnaeth y disgyblion gwblhau gwaith cartref o Wers 1, gofynnwch iddynt rannu eu rhestrau a **thrafodwch** fel dosbarth.)
- Dosbarthwch Daflen Waith 6: Sgwariau Rhesymu i unigolion neu barau a dangoswch Sleid 8 y PowerPoint. Dangoswch i'r dosbarth sut y gallant ddadansoddi'r ddelwedd hon gan ddefnyddio'r sgwâr rhesymu.
- Gofynnwch i'r disgyblion a ydynt yn gyfarwydd â sefydliad Sustrans, sydd i'w weld yn y logo. Dywedwch wrth y disgyblion y byddwch yn dangos cyfres o bosteri Sustrans. Mae gan y Parau / Unigolion 2 funud gyda bob delwedd i nodi eu syniadau ar eu Sgwariau Rhesymu wrth i chi ddangos sleidiau 9-13.
- Unwaith y bydd y disgyblion wedi gweld y delweddau, casglwch adborth o'u syniadau a thrafodwch y negeseuon yn y posteri a diben y sefydliad.

**Cyngor da:** Amlygwch allu'r disgyblion i ddadansoddi testunau gweledol drwy drafod diben a chynulleidfa'r posteri.

Cwestiynau Allweddol:

- Sut mae ymatebion gwaith cartref y disgyblion **yn cymharu** â'r neges a gyflëir gan y posteri?

- A all y disgyblion **ddyfalu** pam mae'r sefydliad wedi dewis yr enw Sustrans? (**Sus**tainable **Trans**port)

## Prif Weithgaredd    Darllen ar gyfer Gwybodaeth    30 munud

- Trefnwch y disgyblion mewn grwpiau prosiect. Eglurwch y bydd angen i'r grwpiau ddefnyddio **ystod o ffynonellau** gwybodaeth er mwyn cyflwyno dadl gytbwys ar gyfer eu cymeriad.
- Dosbarthwch Daflen Waith 7: Testunau Ffynhonnell a naill ai Dalen Waith 8: Dau Syniad A, neu Daflen Waith 9: Dau Syniad B (gweler nodyn gwahaniaethu).
- Esboniwch i'r grwpiau y byddant nawr yn defnyddio sgiliau **darllen a deall** a **rhesymu** i leoli a dewis gwybodaeth. Byddant hefyd yn **gwrando** ar ei gilydd i wneud **penderfyniadau** fel grŵp er mwyn dewis pwyntiau allweddol a **dod i gasgliad** am ddiben testunau. Rhowch 10 munud i'r grwpiau ddarllen, **trafod** a chofnodi pwyntiau allweddol o destun ffynhonnell A ar Daflen Waith 7 ar eu dalenni dau syniad (Daflen Waith 8 neu 9).
- Nesaf, rhowch 10 munud i'r disgyblion ddarllen, trafod a chofnodi pwyntiau allweddol o destun ffynhonnell B neu Taflen Waith 7.
- Rhowch 5 munud i'r disgyblion **gymharu'r** pwyntiau allweddol a dewis beth a deimlant yw'r ddau bwynt allweddol o'r ddau destun: dylent wedyn wneud nodyn o'r rhain yn y golofn dau syniad.
- Cadarnhewch y sgiliau mae'r disgyblion wedi eu defnyddio.

**Cyngor da:** Cysylltwch i elfennau rhifedd ar gyfer Blwyddyn 8 drwy drafod sut y defnyddir ac y cyflwynir data yn y testun ffynhonnell.

## Dosbarth Cyfan    Ystyried barn a gwaith grŵp    10 munud

- Rhowch 5–10 munud i'r grwpiau **drafod** a llenwi'r adran berthnasol o Taflen Waith 4: Beth fyddent yn ei ddweud? (Dosbarthwyd yn y wers ddiwethaf).
- Adborth i'r dosbarth. I ba raddau mae gwybodaeth heddiw wedi newid neu ddatblygu barn y cymeriadau?

## Gwaith cartref

- Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu disgrifiad byr o'r ardal o amgylch gatiau'r ysgol pan fyddant ar eu ffordd i'r ysgol. Sut maent yn teimlo am y ffyrdd: a ydynt yn ddiogel? A yw'n ardal y gallant fwynhau eu hunain ynddi?

**Mae'r gweithgaredd gwaith cartref hwn yn paratoi disgyblion i ymgysylltu â thasgau yn y wers nesaf.**

# Gwers 3. Beiciau yn Amsterdam

**Mae'r wers hon yn ymwneud â dewis amgen go iawn i'r diwylliant car a gellir ei haddysgu fel gwers unigol neu fel rhan o'r cynllun.**

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod bod dewisiadau amgen i'r diwylliant car.
2. Deall y gall ffeithiau gael eu cyflwyno i gael gwahanol effaith.
3. Gwerthuso gwahaniaethau rhwng diwylliannau trafnidiaeth.

**FfLlRh** **8.LLS2** cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy
**8.LLG1** ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol
**8.LLG3** gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio
**8.DD4** defnyddio casglu a dehongli i ddeall haenau o ystyr
**8.DYD5** adnabod gwahanol safbwyntiau ar bwnc ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a gwrth-ddweud

## Adnoddau

- Sleidiau 14–16 y PowerPoint.
  Ffilm: *Straeon Beic o Amsterdam*
  Mae gan y ffilm lais-drosodd Cymraeg. Dewch o hyd i'r ffilm yma: www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm; ar y CD; www.youtube.com/user/SustransLibrary; neu drwy e-bost schoolswales@sustrans.org.uk
  (Nodyn Athrawon: mae'r delweddau yn y ffilm yn dangos pobl yn beicio heb helmed ac weithiau gyda mwy nag un person ar feic. Mewn trafodaeth, gofynnwch i'r disgyblion ystyried os a pham y gall hyn fod yn llai peryglus yn Amsterdam o gymharu â dinas yng Nghymru. Atgoffwch y disgyblion eu bod yn beicio mewn cyd-destun gwahanol ac y dylent gymryd gwahanol ragofalon.)
- 30x Taflen Waith 10: Canllaw Rhagdybio.

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: stopiwch y ffilm bob hyn a hyn er mwyn sicrhau dealltwriaeth a llywiwch y gweithgareddau gwrando. Esboniwch i grwpiau y dylent ddefnyddio cymysgedd o ffeithiau a barn yn eu podlediadau.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: nodwch farn a ffeithiau a gyflwynir yn y ffilm. Gofynnwch i ddisgyblion gyflwyno ffeithiau yn eu podlediad er mwyn cefnogi eu barn.

## I Ddechrau    Teithio o amgylch y byd    15 munud

- Dangoswch sleidiau 14-16 sy'n dangos pobl yn teithio i'r ysgol yn yr Iseldiroedd. Ail-ddefnyddiwch sgiliau a ddefnyddiwyd yn y wers ddiwethaf a gofynnwch i ddisgyblion am adborth ynglŷn â'r hyn y gallant ei weld a'i gasglu o'r delweddau. (Y delweddau yw: Mae Sleid 14 yn dangos tair merch ar eu taith reolaidd i'w clwb chwaraeon a dawns; mae Sleid 15 yn dangos bechgyn ar eu ffordd adref o'r ysgol; mae Sleid 16 yn dangos cyfleuster parcio beiciau mewn ysgol uwchradd yn Assen. Tynnwyd y lluniau yn 2014.)
- Dosbarthwch Daflen Waith 10: Canllaw Rhagdybio. Gofynnwch i'r disgyblion mewn parau i drafod a llenwi'r golofn gyntaf.

**Cyngor da:** Gwnewch sgwâr rhesymu fel dosbarth ar y bwrdd er mwyn datblygu'r sgiliau a ddysgwyd yn y wers ddiwethaf.

## Prif Weithgaredd    Tasg Gwrando a Gweithgaredd Grŵp    25 munud

- Dywedwch wrth y dosbarth y byddant yn gwylio ffilm mewn adrannau byr.
- Gofynnwch i'r dosbarth wrando i weld a yw'r syniadau a nodwyd ganddynt yng ngholofn un yn gywir neu'n anghywir. Dangoswch y ffilm *Straeon Beic o Amsterdam* tan 2'20". Stopiwch y ffilm er mwyn rhoi cyfle i'r disgyblion lenwi'r ail golofn mewn parau.
- Dywedwch wrth y disgyblion y byddwch yn dangos yr adran nesaf o'r ffilm ac y dylent wrando unwaith eto i weld a yw'r syniadau a nodir yng ngholofn 1 yn gywir neu'n anghywir.
- Dangoswch y ffilm tan 3'25". Stopiwch er mwyn rhoi cyfle i'r parau drafod ac ychwanegu at golofn 2.
- Gwyliwch weddill y ffilm, gan ofyn i'r disgyblion wrando er mwyn gweld a oeddent yn gywir. Caniatewch i barau drafod ar y diwedd a rhoi adborth o'r atebion i'r dosbarth.
- Gofynnwch i'r dosbarth ystyried sut oedd y beicwyr yn y ffilm yn teimlo ynglŷn â bod ar y ffyrdd yn Amsterdam (mae hyn yn parhau'r dasg yn rhes olaf y ddalen waith). Lluniwch restr dosbarth ar y bwrdd yn disgrifio sut oeddent yn teimlo (e.e. hapus, balch, diogel, wedi eu parchu).
- Gofynnwch i'r disgyblion weithio yn eu grwpiau. Dywedwch wrthynt y byddant yn paratoi podlediad 1 munud o hyd yn disgrifio sut maent yn teimlo ynglŷn â'r ffyrdd o amgylch eu hysgol a gatiau ysgol pan fo'r ysgol yn dechrau yn y bore. (D.S. Mae hyn yn dilyn gwaith cartref a roddwyd wedi gwersi 1 a 2).
- Mae gan y grwpiau 10 munud i baratoi eu podlediad.

## Dosbarth Cyfan    25 munud

- Grwpiau i gymryd eu tro i gyflwyno eu podlediadau i'r dosbarth.
- Nesaf at y rhestr o wahanol farn ynglŷn ag Amsterdam y gwnaethoch eu llunio yn gynharach yn y wers, gwnewch restr o farn ynglŷn â'r ffyrdd gerllaw eich ysgol.
- Fel dosbarth cymharwch y ddwy restr. Sut mae'r disgyblion yn teimlo ynglŷn â'r ffyrdd o'u hamgylch o gymharu â sut yr oedd y bobl yn y ffilm yn teimlo ynglŷn â'r ffyrdd yn Amsterdam?
- Dangoswch Sleid 3 ac atgoffwch y disgyblion am y Ddeddf Teithio Llesol y gwnaethant ddysgu amdani yng Ngwers 1. Cymrwch bleidlais dosbarth. Pwy fyddai'n hoffi i'r cynghorau ledled Cymru ddefnyddio'r Ddeddf hon i greu system drafnidiaeth debyg i'r un yn Amsterdam?
- Rhowch 5 munud i'r grwpiau gwblhau Daflen Waith 4: Beth fyddent yn ei ddweud? Casglwch adborth er mwyn sicrhau bod y disgyblion yn gwreiddio'r wybodaeth a'r syniadau y maent wedi eu dysgu yn y wers hon. (D.S. dilëwch y cam hwn os ydych yn addysgu'r wers hon ar ei phen ei hun).

## Gwaith Cartref (dewisol)

- Gofynnwch i ddisgyblion ddarganfod sut oedd eu rhieni, gofalwyr neu fam-gu a thad-cu/taid a nain yn cyrraedd yr ysgol.

**Mae'r wers hon yn rhoi cyfle i ddisgyblion ddeall bod cymdeithas yn dewis sut i drefnu teithio a gall greu dewisiadau amgen i'r diwylliant car. Addysgwch fel gwers ar ei phen ei hun neu fel rhan o'r cynllun.**

# Gwers 4. Ffyrdd a Hawliau

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod beth yw Erthyglau 6 a 31 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
2. Gwerthuso effaith defnydd o'r car ar hawliau'r plentyn.
3. Creu dadleuon ynglŷn â defnydd o ffyrdd.

**FfLlRh** **8.LLS5** amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl
**8. LLC1** cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd
**8.DD1** canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt
**8.DYD3** crynhoi a chyfuno gwybodaeth, e.e. cyfrif cryno o bwnc eang, gan ddefnyddio ffynonellau gwahanol
**Rhifedd CA3.16** dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd bywyd go iawn, gan gynnwys y rheini a ddefnyddir yn y cyfryngau, gan adnabod y gall rhai graffiau fod yn gamarweiniol
**8.D3** dehongli diagramau a graffiau er mwyn cymharu setiau data

## Adnoddau

- Sleidiau 17–24 y Cyflwyniad PowerPoint.
- 30x Taflen Waith 11: Fframwaith Dysgwr.
- 6x Taflen Waith 12: Cynllunio eich Araith.

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: canolbwyntiwch y drafodaeth ar y data ynglŷn ag iechyd (Sleid 24) yn unig ac arweiniwch y disgyblion i wneud cysylltiadau rhwng y wybodaeth hon a chwestiwn y ddadl.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: defnyddiwch y sleidiau i ddatblygu trafodaeth ynglŷn â setiau data ac ystadegau cysylltiedig ag elfennau rhifedd y FfLlRh. Defnyddiwch y sleid estynnol (Sleid 23) i gymharu risg fel y'i cyflwynir mewn dau set data a gwnewch gysylltiadau rhwng gwahanol themâu. Ail-ddefnyddiwch y sgiliau darllen a ddatblygwyd yng Ngwers 2 ac anogwch y disgyblion i ddarllen pwyntiau allweddol o ddau set data yn yr un modd, ac felly trosglwyddo sgiliau darllen rhwng ffurfiau llenyddol a rhifol.

## I Ddechrau  Ddoe a heddiw  10 munud

- (Dewisol: casglwch adborth o atebion gwaith cartref a thrafodwch sut y gallai cymunedau fod wedi newid dros y cenedlaethau.)
- Dangoswch Sleid 17 y PowerPoint. Gofynnwch i'r dosbarth ddyfalu ble a phryd y tynnwyd y llun hwn, dywedwch wrthynt mai yn Nhrecynon, De Cymru y'i tynnwyd, ym 1945.
- Gofynnwch i'r parau ragfynegi beth fyddai llun yn cael ei dynnu heddiw o'r un olygfa yn ei ddangos. Casglwch adborth o'r atebion. Dangoswch Sleid 18 i'r disgyblion a'i chymharu gyda'u syniadau. Dangoswch Sleid 19 sy'n dangos y ddwy olygfa ochr yn ochr.
- Gofynnwch i'r parau ystyried:

  - beth allai fod wedi ei golli o gymuned Trecynon?

  - beth allai fod wedi ei ennill gan gymuned Trecynon?

## Prif Weithgaredd  Trafod ystadegau  30 munud

- Trefnwch y disgyblion mewn grwpiau prosiect. Dangoswch Sleid 20 sy'n dangos Erthygl 31 CCUHP, "Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau."
- Dywedwch wrth y dosbarth y byddant, yn eu grwpiau yn ystyried i ba raddau y maent yn mwynhau'r hawl hwn yng Nghymru. Dangoswch Sleid 21 a gofynnwch i'r grwpiau drafod y cwestiwn ar y sleid. Rhowch adborth o'r atebion i'r dosbarth.
- Dangoswch Sleid 22, sy'n dangos Erthygl 6 yr CCUHP, "Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu fod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach." Gofynnwch i'r dosbarth beth y maent hwy'n ei feddwl yw'r peryglon i'w hiechyd yng Nghymru.
- [Cam estynnol: Dangoswch Sleid 23 ynglŷn â damweiniau ar y ffyrdd. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cwestiwn ar y sleid cyn clicio i ddatgelu'r siart gylch sy'n dangos y math o drafnidiaeth. Trafodwch ymateb y dosbarth. Cwestiynau allweddol:

  - Pa dystiolaeth ar y sleid hon allai arwain at benderfyniad y Pennaeth i wahardd cerbydau?

  - Sut mae'r wybodaeth hon yn cysylltu i hawliau'r plentyn?]
- Dangoswch Sleid 24, sy'n dangos ffeithiau am deithio llesol ac iechyd. Trafodwch yr ymateb. Cwestiynau allweddol:

  - Pa gysylltiadau all y disgyblion eu gwneud rhwng y graffeg gwybodaeth ar y sleid?

  - Pa dystiolaeth allai arwain at benderfyniad y Pennaeth i wahardd cerbydau?

  - Sut mae teithio llesol yn cysylltu i hawliau'r plentyn?
- Rhowch 10 munud i'r grwpiau drafod sut y gallai'r wybodaeth hon effeithio ar eu dadl, gan ychwanegu eu nodiadau i Daflen Waith 4.

**Cyngor da 1:** Cysylltwch i'r Ddeddf Teithio Llesol ar sleid 3 a gofynnwch i'r disgyblion ystyried sut y gallai hyn effeithio ar brofiad plant o'u hawliau yng Nghymru.

**Cyngor da 2:** Cysylltwch i elfennau rhifedd ar gyfer Blwyddyn 8 drwy drafod sut y defnyddir ac y cyflwynir data yn y siart a ddangosir ar y sleid.

## Dosbarth Cyfan  Gwerthuso barn a meini prawf llwyddiant  20 munud

- Dosbarthwch Daflen Waith 11 a Daflen Waith 12. Gan ddefnyddio'r dalenni gwaith gofynnwch i'r grwpiau ddewis y meini prawf llwyddiant mwyaf priodol ar gyfer eu trafodaeth grŵp o'r gronfa o ddatganiadau yn y Fframwaith Dysgwr.
- Nesaf, caniatewch i grwpiau gynllunio sut y gallai eu grŵp gyflwyno eu dadl, gan ddefnyddio'r awgrymiadau ar y ddalen waith. Os nad ydych yn dilyn y gwersi estynnol efallai y byddwch hefyd am ddefnyddio'r agoriadau areithiau enghreifftiol ar Daflen Waith 13 i gynorthwyo disgyblion i gynllunio eu cyflwyniad.
- Os nad ydych yn dilyn y gwersi estynnol sicrhewch fod y dosbarth yn barod i gyflwyno eu dadl yn y wers nesaf.

## Gwaith cartref (dewisol)

Os ydych yn cynnal trafodaeth yn ystod y wers nesaf, gofynnwch i'r disgyblion ymarfer eu dadl gyda'i gilydd. Gallech ddefnyddio'r awgrymiadau gwrando yng Ngwers 8 fel y gallant roi adborth i'w gilydd ynglŷn â'u sgiliau cyflwyno.

**Galluogwch bobl ifanc i ystyried sut y gallai'r Ddeddf Teithio Llesol ganiatáu iddynt wireddu eu hawliau i chwarae, iechyd ac amgylchedd diogel yng Nghymru.**

# Gwers 5. Arian yn Siarad GWERS ESTYNNOL

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod beth yw manteision teithio llesol.
2. Deall bod ystod o ffyrdd y gall pobl ifanc deithio'n llesol.
3. Gwerthuso effaith berswadiol gwahanol ddadleuon.

**FfLlRh** **8.LLS5** amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. wrth chwarae rôl neu mewn dadl
**8. LLC1** cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd
**8.LLC2** trafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf

## Adnoddau

- Sleid 25 y Cyflwyniad PowerPoint (dewisol)

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: dangoswch Sleid 25 er mwyn rhoi rhai syniadau i'r disgyblion ynglŷn â'r mathau o ffyrdd y gallai ysgolion wario'r arian. Yn ystod y trafodaethau grŵp dosbarthwch slipiau o bapur gydag awgrymiadau personol ar gyfer tasgau neu rolau y gallai disgyblion eu cymryd yn y grŵp: e.e. siaradwr; cofnodwr; awgrymu eu syniadau eu hunain; gofyn cwestiynau; sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyfrannu; awgrymu syniadau eraill; datblygu syniadau pobl eraill; rhoi ffeithiau; cynnig safbwyntiau.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: efallai y byddwch yn dymuno datblygu'r cyflwyniad munud o hyd drwy ychwanegu 'hawl i ymateb' a rhoi 30 eiliad i unrhyw un o unrhyw grŵp i ymateb i ddadleuon eraill. Gall hyn roi cyfle i wrthddadleuon ddatblygu. Gallwch hefyd annog disgyblion i ddefnyddio technegau iaith berswadiol.

## I Ddechrau Trafodaeth Ddosbarth 10 munud

- Defnyddiwch ddysgu blaenorol drwy ddangos Sleid 16: parcio beiciau y tu allan i ysgol Uwchradd yn yr iseldiroedd. Gofynnwch i'r disgyblion drafod sut y mae eu hymateb i'r llun hwn wedi newid ers iddynt ei weld am y tro cyntaf.

Cwestiynau allweddol y gallech eu gofyn:

- Beth allai'r effeithiau fod ar iechyd pobl ifanc yn yr ysgol hon?
- Pa effeithiau allai fod ar yr amgylchedd o amgylch yr ysgol?
- Beth allai'r effaith fod ar yr economi leol?
- I ba raddau mae'r bobl ifanc yn yr ysgol hon yn mwynhau eu hawliau i ddiogelwch, iechyd a chwarae?

## Prif Weithgaredd Tasg trafodaeth grŵp 40 munud

- Gofynnwch i'r disgyblion fynd i'w grwpiau cymeriad.
- Gofynnwch i'r grwpiau fynd i'w rôl fel eu cymeriadau a dywedwch wrthynt fod angen iddynt aros yn y rôl nes eich bod yn dweud wrthynt fod yr ymarferiad wedi gorffen. Hysbyswch y 'cymeriadau' eu bod wedi eu gwahodd heddiw i gyfarfod yn yr ysgol er mwyn gwneud penderfyniad pwysig. Mae cyn-ddisgybl cyfoethog wedi cynnig £10,000 i'r ysgol, cyn belled bod yr ysgol yn defnyddio'r arian mewn modd sy'n annog pobl fanc i deithio'n llesol. Yn ystod y cyfarfod hwn mae'n rhaid iddynt benderfynu sut i wario'r arian.
- Gosodwch amserydd am 3 munud er mwyn i'r grwpiau gael meddwl am gymaint â phosibl o syniadau ynglŷn â ffyrdd y gallai'r ysgol ddefnyddio'r arian. Yna bydd angen i bob grŵp ddewis ei syniad gorau. (Gallwch ddangos Sleid 25, sy'n rhoi llawer o syniadau enghreifftiol.)
- Grwpiau i roi adborth gan nodi beth yw'r syniad gorau (un eu hunain neu un o'r awgrymiadau). Bydd yr athro/athrawes yn dewis pedwar syniad gwanhaol o blith y dosbarth.
- Bydd yr athro/athrawes yn ysgrifennu pob syniad ar ddalen A4 ac yn gosod un darn ym mhob cornel o'r ystafell.
- Dywedwch wrth y cymeriadau bod angen iddynt nawr benderfynu fel unigolion pa un o'r pedwar syniad y mae eu cymeriad yn credu yw'r gorau (nid oes yn rhaid iddynt benderfynu fel grŵp). Mae angen iddynt sefyll wrth ymyl ddalen y syniad hwn.
- Dylid nawr rhannu'r dosbarth yn ôl y pedwar syniad. Mae pob un o'r rhain yn ffurfio grŵp newydd, gyda'r unigolion yn aros yn eu rôl fel eu cymeriadau. Dywedwch wrth y grwpiau fod ganddynt 10 munud i feddwl am ddadleuon perswadiol er mwyn cyfiawnhau pam mai eu syniad hwy ddylai gael yr arian. Yna bydd un person o'r grŵp yn cyflwyno'r dadleuon i'r dosbarth. Wedi i bob grŵp wneud eu cyflwyniad, gall pawb (yn cynnwys y cyflwynwyr) newid eu meddyliau a newid grŵp. Y nod yw ennill cymaint â phosibl o bobl i'ch grŵp chi.
- Grwpiau yn llunio dadleuon. Mae gan bob grŵp 1 munud i gyflwyno (defnyddiwch amserydd). Pan fydd pob grŵp wedi cyflwyno gwahoddwch bawb i ddewis grŵp newydd os ydynt yn dymuno.
  (Nodyn Athrawon: Weithiau bydd dosbarthiadau yn symud llawer ar y cam hwn; weithiau bydd neb yn symud. Parhewch gyda'r cam nesaf yn y ddau achos.)
- Dywedwch wrth y grwpiau newydd (neu'r hen rai os nad oes neb wedi symud) mai dyma eu cyfle olaf i gael yr arian. Y tro hwn mae'n rhaid iddynt berswadio pawb arall i ymuno â hwy. Rhowch 5 munud i'r grwpiau baratoi eu dadleuon newydd.
- Rhowch 1 munud i bob grŵp gyflwyno eu dadl newydd i'r dosbarth ac unwaith eto gwahoddwch bawb yn y dosbarth i symud i grŵp newydd (gweler y nodyn gwahaniaethu).
- Pa grŵp sydd â'r mwyaf o bobl? Rhowch longyfarchiadau iddynt! Mae ganddynt £10,000!

## Dosbarth Cyfan Ystyried sgiliau 10 munud

- Gofynnwch i'r dosbarth ddod allan o'r rôl a rhoi cynnwys y drafodaeth i'r naill ochr. Gofynnwch iddynt ystyried yr ystod o sgiliau y mae'r ymarferiad hwn wedi eu datblygu. Cyfeiriwch at y Fframwaith Dysgwr ar Dalen Waith 11 a gofynnwch i'r disgyblion nodi sgiliau y maent wedi eu defnyddio yn y wers hon.
- Adborth. Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y meini prawf llwyddiant y maent wedi eu gosod ar gyfer eu trafodaeth a'u dadl. A ydynt eisiau addasu eu meini prawf naill ai i'w gwneud yn fwy heriol neu'n haws i'w cyflawni?

**Mae'r sesiwn dosbarth cyfan yn gyfle pwysig i ddisgyblion nodi'r sgiliau y maent wedi eu hymarfer yn yr ymarferiad hwn a chaniatáu iddynt ystyried pa feini prawf llwyddiant yw'r mwyaf pwysig ar gyfer y dasg derfynol.**

# Gwers 6. Ysgrifennu Areithiau GWERS STYNNOL

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Defnyddio gwybodaeth o wersi blaenorol yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain.
2. Defnyddio dyfeisiau iaith o wersi blaenorol yn eu gwaith ysgrifennu eu hunain.
3. Adolygu effeithiolrwydd ysgrifennu a golygu drafftiau.

**FfLlRh** **8.YY3** wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â'r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy'n addas at y diben
**8.YY5** defnyddio meini prawf i adnabod ffyrdd o wella ac yna ailddrafftio
**8.YS2** dewis, dadansoddi a chyflwyno syniadau a gwybodaeth yn argyhoeddiadol neu'n wrthrychol
**8.YI2** defnyddio termau technegol, iaith a mynegiant yn gyson â chynnwys y pwnc

## Adnoddau

- 30x Taflen Waith 13: Ysgrifennu Araith.

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: anogwch y disgyblion i rannu'r araith ymhlith eu grŵp a chymryd un paragraff yr un. Modelwch ysgrifennu i'r dosbarth neu i grwpiau cyn dechrau neu gofynnwch i'r disgyblion wneud rhannau o'r darn fel tasg ysgrifennu mewn pâr. Canolbwyntiwch ar lefel brawddeg a pharagraff.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: datblygwch y drafodaeth yn ymwneud â nodweddion perswadiol i gynnwys ystod o dechnegau iaith berswadiol y gall disgyblion eu cynnwys yn eu hareithiau. Canolbwyntiwch ar lefel testun cyfan. Fel tasg gwaith cartref gall y disgyblion ddysgu eu haraith, neu ddysgu cyflwyno eu haraith gan ddefnyddio nodiadau yn hytrach na'i darllen allan.

## I Ddechrau — Gwrando am Nodweddion Iaith — 10 munud

- Eglurwch i'r dosbarth y byddwch yn darllen yr araith a roddwyd gan ferch 12 oed o'r enw Severn Suzuki yn annerch Uwchgynhadledd y Ddaear y Cenhedloedd Unedig ym 1992. Eglurwch i'r dosbarth y cafodd y Cenhedloedd Unedig ei sefydlu i hyrwyddo cydweithrediad rhyngwladol ar faterion pwysig. Gofynnwch i un o'r disgyblion ddarllen yr araith ar Daflen Waith 13.
- Gofynnwch y cwestiynau canlynol i'r dosbarth:

  - Beth yw diben araith Severn?

  - Pam ei bod yn teimlo mor angerddol?

  - Beth sy'n gwneud ei haraith yn effeithiol?
- Casglwch adborth o'r ymatebion cyntaf a gwnewch restr ar y bwrdd o ymatebion y dosbarth i gwestiwn 2.

**Cyngor da:** Cysylltwch i'r cwricwlwm Saesneg er mwyn pwysleisio'r nodweddion iaith berswadiol a ddefnyddir yn yr araith.

## Prif Weithgaredd — Cynllunio ac Ysgrifennu — 30 munud

- Dosbarthwch Daflen Waith 13. Fel dosbarth darllenwch agoriad araith Severn a nodwch yr elfennau sy'n ei gwneud yn berswadiol. Efallai y bydd athrawon am amlygu'r nodweddion canlynol: rhagenwau personol (fy/fi/ein/ni); ailadrodd a'r rheol tri; iaith emosiynol; brawddegau byr.
- Dywedwch wrth y grwpiau y byddant yn ysgrifennu eu hareithiau heddiw yn rôl eu cymeriad i gyflwyno eu dadl ar ffurf ysgrifenedig. Atgoffwch y disgyblion y bydd angen iddynt weithio mewn grwpiau er mwyn defnyddio gwybodaeth a syniadau y maent wedi darllen amdanynt neu eu trafod yn ystod y gwersi diwethaf a chyfeiriwch hwy at ddalenni gwaith y maent wedi eu rhoi yn eu llyfrau gwaith.
  (Nodyn i Athrawon: cyfeiriwch at Fframwaith Dysgwr y FfLlRh fel y gall disgyblion ddewis meini prawf llwyddiant ysgrifennu ar gyfer eu gwaith ysgrifenedig.)
- Gan ddefnyddio Dalen Waith 13 bydd disgyblion yn gweithio'n annibynnol ac yn defnyddio sgaffaldau ysgrifennu. (Nodyn Gwahaniaethu: gall disgyblion naill ai ysgrifennu paragraff yr un neu gall pob un ysgrifennu'r araith gyfan.)
- Yn achlysurol ataliwch y dosbarth er mwyn gwneud yn siŵr bod y disgyblion yn defnyddio'r ffeithiau a'r dadleuon y maent wedi eu nodi mewn gwersi blaenorol.

## Dosbarth Cyfan — Gwrando ac Adolygu — 20 munud

- Gofynnwch i'r grwpiau ddarllen drwy eu hareithiau fel grŵp. Wrth wneud hyn maent yn cynnig adborth yn unol â'r meini prawf llwyddiant y maent wedi eu dewis, gan ddefnyddio adran Gwrando ac Adolygu y ddalen waith.
- Rhowch amser i'r disgyblion olygu a gwneud newidiadau yn seiliedig ar adborth eu cyfoedion.

## Gwaith Cartref (os nad yn dilyn Gwers 7)

- Ymarfer eich rhan chi o'r araith yn uchel wrth ffrind neu aelod o'r teulu.
  Er mwyn ymestyn y gwaith cartref hwn gweler y nodyn gwahaniaethu uchod.

**Defnyddiwch y ffilm i ysbrydoli eich dosbarth gydag uchelgais ac angerdd pobl ifanc: dim ond 12 oed oedd Severn Suzuki pan draddododd ei haraith i'r Cenhedloedd Unedig!**

# Gwers 7. Perfformio a Gwrando GWERS STYNNOL

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod bod sut y mae araith yn cael ei chyflwyno yn ychwanegu at ba mor effeithiol ydyw.
2. Deall y gellir herio dadleuon gyda gwrthddadleuon.
3. Gwerthuso dadleuon a llunio gwrthddadleuon.

**FfLlRh** **8.LLS2** cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy
**8.LLG1** ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol
**8.LLG3** gwrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrin neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. i amddiffyn barn, neu ei chamddefnyddio, e.e. i gamarwain drwy orliwio

## Adnoddau

- 30x Taflen Waith 14: Deddf Teithio Llesol.
- 6x Taflen Waith 15: Awgrymiadau Gwrando (eu torri allan, 1 i bob grŵp).

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: canolbwyntiwch ar yr awgrymiadau gwreiddiol ar Ddalen Waith 14 a chaniatewch i'r disgyblion ymarfer eu cyflwyniad gyda'r nod o wreiddio'r adborth o'r awgrymiadau hyn.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: defnyddiwch yr awgrymiadau gwreiddiol ac estynedig ar Ddalen Waith 14.

## I Ddechrau — Sut allaf i deithio'n llesol? — 10 munud

- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y ffyrdd sydd ar eu taith i'r ysgol. Gofynnwch iddynt restru unrhyw beth ar eu llwybr sy'n ei gwneud hi'n anodd iddynt gerdded neu feicio (noder: bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y gymdogaeth ond gallech annog disgyblion i ystyried cyflymder traffig; croesfannau ffordd; a oes palmentydd; llwybrau beicio; llwybrau troed uniongyrchol ac ati.).
- Dosbarthwch Daflen Waith 14: Ymgynghoriad Teithio Llesol. Gofynnwch i'r disgyblion gyfateb yr atebion a awgrymir i'r pwyntiau sydd ar eu rhestr hwy.
- Rhowch adborth fel dosbarth a lluniwch restr dosbarth o atebion y mae'r disgyblion wedi eu nodi a fyddai'n ei gwneud hi'n haws iddynt deithio'n llesol.

**Cyngor da:** Cysylltwch i'r cwricwlwm Daearyddiaeth yng Nghyfnod Allweddol 3. Fel gwaith cartref rhagblaen gofynnwch i'r myfyrwyr gofnodi eu taith i'r ysgol dryw nodi neu dynnu lluniau rhan o'r amgylchedd adeiledig sy'n gwneud teithi llesol yn anodd. Gallech hefyd ddangos llun o'r ardal leol i'r dosbarth a gofyn iddynt ddefnyddio'r llun i nodi rhwystrau i deithio llesol.

## Prif Weithgaredd — Ymarfer ac adborth personol — 40 munud

- Dangoswch Sleid 3 ac atgoffwch y disgyblion am y Ddeddf Teithio Llesol. Eglurwch fod y Ddeddf yn golygu bod dyletswydd ar bob cyngor i ymgynghori â'r gymuned er mwyn canfod sut y gallant wella llwybrau lleol ar gyfer teithio llesol.
- Gofynnwch i'r disgyblion weithio yn eu grwpiau a dychmygu eu bod wedi eu gwahodd i gyfarfod cyngor er mwyn dweud beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws iddynt hwy deithio'n llesol. Mae angen iddynt gynllunio cyflwyniad 5 munud i'r cynghorwyr. Gall disgyblion wneud hyn naill ai mewn rôl fel eu grŵp cymeriad neu fel hwy eu hunain.
- Gofynnwch i grwpiau ymuno â grŵp arall. Bydd un grŵp yn rhoi eu cyflwyniad i'r llall, a fydd yn gwrando ac yn rhoi adborth. Er mwyn cynorthwyo gydag adborth adeiladol, dosbarthwch set o 4 cerdyn wedi eu torri allan o Daflen Waith 15: Awgrymiadau Gwrando (defnyddiwch yr adran awgrymiadau cyntaf).
- Ar ôl y rownd gyntaf o adborth, newidiwch y cardiau a bydd y grŵp arall yn rhoi eu cyflwyniad.
- Gofynnwch i'r dosbarth ystyried pa sgiliau siarad a pha sgiliau gwrando y maent yn eu datblygu, gofynnwch iddynt hefyd ystyried pa sgiliau gwaith grŵp y maent yn eu datblygu. Nodwch rai enghreifftiau o'r sgiliau a ddefnyddir gan wahanol unigolion yn y dosbarth.
- Yn eu grwpiau dylai'r disgyblion ystyried yr adborth y maent wedi ei dderbyn a sut y gallant wella eu cyflwyniad.
- Y disgyblion i roi eu cyflwyniad eto i'w grŵp partner, gan ymgorffori'r targed y gwnaethant ei dderbyn yn rownd gyntaf yr adborth. Fel gwaith estynnol, dosbarthwch yr awgrymiadau estynnol ar y ddalen waith a gofynnwch i'r grŵp sy'n gwrando ymateb i'r cwestiwn ar eu cerdyn awgrym.
- Neilltuwch amser i grwpiau ystyried sut i ymgorffori'r adborth y maent wedi ei dderbyn.

## Dosbarth Cyfan — Targedau personol — 10 munud

- Atgoffwch y disgyblion y bydd y ddadl fawr a'r bleidlais yn digwydd yn y wers nesaf, a gofynnwch iddynt atgoffa eu hunain o'u meini prawf llwyddiant.
- Gofynnwch i'r disgyblion nodi'r adborth personol y gwnaethant ei dderbyn am eu sgiliau siarad yn y wers hon. Gofynnwch iddynt ddweud wrth eu partner beth oedd eu hadborth personol a defnyddio hwn i osod targed personol iddynt eu hunain ar gyfer yr asesiad.

**Fel gwaith cartref, gall disgyblion ymarfer eu haraith gan ddefnyddio'u targed personol a gofyn i riant / gofalwr asesu i ba raddau y maent yn cyflawni eu targed.**

# Gwers 8. Dadl a Phleidlais

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod bod gan wahanol bobl wahanol farn ynglŷn â theithio i'r ysgol.
2. Gwerthuso gwahanol ddadleuon ynglŷn â theithio i'r ysgol.
3. Llunio gwrthddadleuon i farn ynglŷn â theithio i'r ysgol.

**FfLlRh Llafaredd:** Asesiad athro a chyfoedion yw'r wers hon o ganlyniadau Llafaredd y FfLlRh a ddatblygwyd ` drwy'r cynllun cyfan, ac a ddewiswyd fel meini prawf llwyddiant gan y disgyblion.

## Adnoddau

- 6x Taflen Waith 16: Dalenni Asesiad Cyfoedion.
- 6x Taflen Waith 17: Dalenni Asesiad Athro.
- 6x Taflen Waith 18: Papur Pleidleisio.
- Blwch ar gyfer papurau pleidleisio (dewisol).
- Camera ar gyfer lluniau grŵp (dewisol).

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer grwpiau Llai Hyderus: strwythurwch ymhellach y drafodaeth ddosbarth drwy glustnodi un grŵp ar gyfer eu cwestiwn, e.e. Rhaid i'r 'Disgyblion' feddwl am gwestiwn i'r 'Athrawon Addysg Gorfforol'. Yna bydd yr athro/athrawes yn hwyluso'r drafodaeth drwy wahodd un cwestiwn ac ymateb ar y tro.
- Ar gyfer grwpiau Mwy Hyderus: athro/athrawes yn galluogi trafodaeth a arweinir gan ddisgyblion ynglŷn â chwestiynau i'w datblygu, ac yn hwyluso'n ysgafn neu ddim o gwbl. Dywedwch wrth y disgyblion fod y llawr yn agored ac felly gall unrhyw un ofyn cwestiwn neu wneud sylw ar unrhyw adeg. Gallwch hefyd wahodd disgyblion yn uniongyrchol i herio dadleuon ei gilydd.

**I Ddechau** **Trefnu'r ddadl** **10 munud**

- Dywedwch wrth y dosbarth y bydd gan bob grŵp ddim mwy na 4 munud i gyflwyno eu hachos ac atgoffwch hwy y cânt eu hasesu fel grŵp yn ystod eu cyflwyniad.
- Dosbarthwch Daflenni Gwaith 16 a 17. Gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu meini prawf llwyddiant ar ddalen asesiad athro a'i rhoi i chi, ac ar ddalen asesiad cyfoedion i'w chyfnewid gyda grŵp arall. Dylai grwpiau ystyried y meini prawf hyn yn ystod y drafodaeth a bydd ganddynt gyfle i gwblhau'r asesiad ar y diwedd.
- Eglurwch i'r dosbarth y byddant hefyd yn cael eu hasesu ar eu sgiliau gwrando: yn ystod y cyflwyniadau bydd angen iddynt nodi dadleuon a ddefnyddir gan eraill a meddwl am gwestiynau da ar gyfer y grŵp.
- Dywedwch wrth y disgyblion y bydd cyfle ar gyfer cwestiynau pan fydd yr holl grwpiau wedi gwneud eu cyflwyniadau. Sicrhewch fod y disgyblion yn deall cyn dechrau ar y drafodaeth a dymunwch y gorau i'r grwpiau wrth iddynt geisio ennill y bleidlais.

**Prif Weithgaredd** **Cyflwyniad a dadl** **35 munud**

- Dywedwch wrth y disgyblion eu bod nawr 'mewn rôl' ac y byddant yn parhau felly nes y byddwch yn dweud wrthynt am ddod allan o'r rôl.
- Wrth i bob grŵp gyflwyno, llenwch Daflen Waith 17: Taflen Asesiad Athro ar gyfer y grŵp. Gallech hefyd dynnu lluniau o bob grŵp wrth iddynt gyflwyno (ar gyfer eu ffurflenni hunanasesu).
- Unwaith y bydd pob grŵp wedi cyflwyno, rhowch gyfle i'r dosbarth drafod yn eu grwpiau cymeriad a phenderfynu ar gwestiwn i'w ofyn i grŵp arall. Atgoffwch y disgyblion eu bod yn dal i gael eu hasesu yn ystod y drafodaeth hon ac y bydd angen iddynt aros mewn rôl.
- Nawr gwahoddwch y disgyblion i ofyn eu cwestiynau i'w gilydd a chaniatewch i grwpiau ymateb. Gweler y nodiadau gwahaniaethu i weld ffyrdd o strwythuro'r gweithgaredd trafod hwn.

**Dosbarth Cyfan** **Asesiad cyfoedion a phleidlais** **15 munud**

- Rhowch longyfarchiadau i'ch disgyblion am gynnal eu dadl eu hunain a dywedwch wrthynt am ddod allan o'u rôl. Efallai y byddwch am ofyn iddynt sefyll ar eu traed, siglo eu breichiau a'u coesau, ysgwyd llaw gyda'r person nesaf atynt a chyflwyno eu hunain gydau'u henw iawn.
- Caniatewch ychydig funudau i drafod a llenwi dalenni asesiadau cyfoedion a'u rhoi i chi. Dywedwch wrth y dosbarth y byddwch yn dychwelyd eu hasesiadau iddynt yn y wers nesaf.
- Dywedwch wrth y disgyblion eu bod am fwrw pleidlais gyfrinachol. Gosodwch amserydd dosbarth i 30 eiliad a gofynnwch i'r disgyblion ystyried yn dawel eu barn eu hunain am y dadleuon y maent wedi eu clywed. Dosbarthwch Ddalen Waith 18: Papur Pleidleisio i bob disgybl, gofynnwch i'r disgyblion ei lenwi, ei blygu a'i roi yn y blwch. Hysbyswch y disgyblion y caiff canlyniad y bleidlais ei gyhoeddi yn y wers nesaf.

**Ar gyfer y wers hon efallai y byddwch am drefnu cadeiriau mewn cylch,**
**neu rhyw drefn arall a fydd yn galluogi'r disgyblion i weld a chlywed ei gilydd yn glir.**

# Gwers 9. Hunanasesu ac Ystyried

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwerthuso'r newid mewn agwedd disgyblion tuag at deithio llesol.
2. Ystyried effaith ehangach y prosiect hwn ar agweddau disgyblion tuag at eu cyfrifoldebau i'w hunain a'u cymuned.

**FfLlRh Llafaredd:** Mae'r wers hon yn ystyried i ba raddau y mae'r disgyblion wedi datblygu'r ystod lawn o amcanion llafaredd y FfLlRh yn ystod y prosiect, drwy asesiad grŵp a hunanasesiad.

## Adnoddau

- Sleidiau 26–32 y PowerPoint.
- 30x Taflen Waith 19: Ffurflen Hunanasesiad.
- Taflenni Asesiad Athro ac Asesiad Cyfoedion o'r wers ddiwethaf.
- 30x Taflen Waith 20: Holiadur 'Wedyn'.
- Dewisol: Lluniau o'r wers ddiwethaf (x4 / 5 wedi eu hargraffu o bob grŵp).
- 30x Taflen Waith 21: Cardiau Addewid.
- 1x Taflen Waith 22: Ffurflen Asesiad Athro.
- Amlen fawr wedi ei chyfeirio at Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE.

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: mae'r llinell barn yn galluogi disgyblion i nodi eu barn yn aneiriol. Er mwyn rhoi adborth ynglŷn â barn i'r dosbarth gallwch ofyn i'r disgyblion greu pâr gyda rhywun ym mhen arall y llinell ac ystyried pam fod ganddynt farn wahanol ac yna cael ychydig o adborth gan y parau.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: gofynnwch i'r disgyblion egluro pam eu bod wedi dewis sefyll mewn man penodol; anogwch drafodaethau ar hyd y llinell fel bod disgyblion yn cael clywed ac ymateb i ystod o farn; rhowch 'feicroffon' i ddisgybl penodol i gynnal cyfweliadau gydag ychydig o ddisgyblion ar hyd y llinell.

### I Ddechau — Canlyniadau'r bleidlais — 10 munud

- Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu canlyniad y bleidlais gyfrinachol: a wnaeth y dosbarth bleidleisio o blaid neu yn erbyn y penderfyniad i wahardd ceir? Mewn parau, gwahoddwch y disgyblion i amcangyfrif y niferoedd o blaid ac yn erbyn.
- Datgelwch ganlyniad y bleidlais! Derbyniwch ymatebion cyntaf gan y dosbarth a chaniatewch i drafodaeth fer ddatblygu, gan ddefnyddio cwestiynau procio megis:

  - Faint o gytundeb oedd ymhlith y dosbarth ynglŷn â'r mater?

  - Pa mor ddadleuol ydych chi'n meddwl fu'r pwnc hwn i'r dosbarth?

  - Sut mae'r canlyniad hwn yn gwneud i chi deimlo ynglŷn â'ch cyd-fyfyrwyr?

  - Beth ydych chi'n feddwl fydd barn gweddill yr ysgol am y penderfyniad hwn?

### Prif Weithgaredd — Ystyried a hunanasesu — 30 munud

- Dywedwch wrth y disgyblion y byddant yn y wers hon yn ystyried y sgiliau llythrennedd a llafaredd y maent wedi eu datblygu, a'r safbwyntiau a'r agweddau y maent wedi eu llunio.
- Dosbarthwch 1x Taflen Waith 19: Ffurflen Hunanasiad i bob disgybl. Dosbarthwch y ffurflenni Asesiad Athro ac Asesiad Cyfoedion wedi eu llenwi a gasglwyd yn y wers ddiwethaf. Os ydych yn eu defnyddio, dosbarthwch ffotograffau o'r cyflwyniad grŵp.
- Eglurwch i'r disgyblion bod ganddynt tua 10 munud i lenwi eu ffurflenni hunanasesu a'u gludo yn eu llyfrau.
- Arddangoswch Sleid 26 o'r PowerPoint, sy'n darllen: "Mae'r Pennaeth wedi penderfynu gwahardd pob cerbyd rhag dod o fewn milltir i'r ysgol" ac atgoffwch y disgyblion mai dyma'r union ddatganiad y gwnaethant ei weld ar ddechrau'r prosiect.
- Neilltuwch un wal o'r dosbarth ar gyfer **cytuno'r gryf** a wal arall ar gyfer **anghytuno'n gryf**. Gan ddefnyddio'r PowerPoint, gofynnwch i'r disgyblion sefyll rhwng y ddwy wal a gwneud 'llinell barn' yn ôl faint maent yn cytuno gyda'r datganiadau ar sleidiau 27-32, a defnyddiwch y rhain i ddechrau trafodaeth ddosbarth 10-20 munud o hyd (gweler y nodyn gwahaniaethu i gael syniadau ynglŷn â sut i strwythuro'r drafodaeth hon).
- Dosbarthwch 1x Taflen Waith 20 Holiadur 'Wedyn' i bob disgybl a gofynnwch iddynt ei gwblhau. Cwblhewch Daflen Waith 22: Ffurflen Asesiad Athro eich hun! Rhowch y rhain i gyd mewn amlen fawr gyda'r 'Holiaduron Cynt' a gwblhawyd yng Ngwers 1. Rhowch hon yn yr amlen sydd wedi ei chyfeirio at: Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE.
- Postiwch eich amlen i dderbyn tystysgrif ar gyfer pob disgybl a'r cyfle i ennill arddangosiad gan y pencampwr BMX, Matti Hemming, ar gyfer eich ysgol.

### Dosbarth Cyfan — Addunedau — 20 Munud

- Ysgrifennwch adduned athro ar y bwrdd ynglŷn â sut y gallech ymgorffori teithio llesol yn eich bywyd eich hun. Mae'r addunedau gorau yn gyraeddadwy, realistig a phendant, e.e. 'Byddaf yn cerdded i'r ysgol ddwywaith yr wythnos'; 'Byddaf yn beicio i'r clwb llyfrau ar Ddydd Mawrth' yn hytrach na 'Byddaf yn cerdded mwy'.
- Dosbarthwch Daflen Waith 21: Taflen Adduned. Gwahoddwch y disgyblion i ysgrifennu eu hadduned realistig eu hunain ynglŷn â sut y gallant ymgorffori teithio llesol yn eu bywydau; gall disgyblion naill ai ludo'r rhain yn eu llyfrau neu eu rhoi i chi os ydych yn dilyn Gwers 10. Os ydych yn dilyn Gwers 10, gall y disgyblion hefyd roi eu hasesiadau cyfoedion ac athro i chi.
- Llongyfarchiadau mawr i chi a'ch disgyblion gan Sustrans!

**Postiwch yr holiaduron Cynt ac Wedyn, ynghyd â'ch ffurflen gwerthusiad athro, at Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE. Mae derbyn gwerthusiadau yn gwneud gwahaniaeth mawr i'n cyllido a'n rhaglenni addysg. Am bob gwerthusiad a dderbynnir bydd y disgyblion yn cael tystysgrif a chaiff yr ysgol ei chynnwys mewn cystadleuaeth i ennill arddangosiad triciau gan bencampwr BMX a daliwr record byd.**

# Gwers 10. Cymuned yr Ysgol GWERS ESTYNNOL

## Amcanion a Chanlyniadau Dysgu

1. Gwybod beth yw diben Sustrans fel sefydliad.
2. Deall pam fod codi ymwybyddiaeth yn bwysig ar gyfer elusennau a chyrff anllywodraethol.
3. Gwerthuso'r dysgu dros gyfnod y prosiect a rhannu hyn gyda'r ysgol ehangach.

**FfLlRh** **8.LLS2** cyflwyno pynciau a syniadau'n gydlynus, gan ddefnyddio technegau'n effeithiol, e.e. strwythur clir, hanesyn i gyflwyno enghraifft, casgliadau credadwy
**8. LLC1** cymryd amrywiaeth o rolau, e.e. trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith, mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd

## Adnoddau

- Sleidiau 33–35 y PowerPoint.
- Cardiau Adduned wedi eu llenwi (o'r wers ddiwethaf).
- Deunyddiau arddangos (papur /peniau ysgrifennu / glud).
- Dewisol: asesiadau athro a chyfoedion wedi eu cwblhau.

## Gwahaniaethu

- Ar gyfer y Llai Hyderus: defnyddiwch dargedau personol mewn ffurflenni hunanasesu disgyblion er mwyn cael adborth gan gyfoedion yn ôl y targed hwn.
- Ar gyfer y Mwy Hyderus: defnyddiwch dargedau personol mewn ffurflenni hunanasesu disgyblion er mwyn cael adborth gan gyfoedion yn ôl y targed hwn.

## I Ddechrau Trosolwg o Sustrans 10 munud

- Dangoswch Sleidiau 33–35 y PowerPoint i'r disgyblion.
- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried y cwestiynau canlynol mewn parau:
  - Beth mae Sustrans yn ceisio ei newid?
  - Sut mae elusennau yn gwneud i bethau newid?
- Rhowch adborth o'r atebion i'r dosbarth a chysylltwch yr atebion i waith elusennau a chyrff anllywodraethol eraill y mae'r disgyblion wedi dod i gysylltiad â hwy yn yr ysgol. Gofynnwch i'r disgyblion **pam** y maent yn meddwl ei bod yn bwysig i Sustrans ac elusennau eraill gysylltu â chymaint o bobl â phosibl yn eu gwaith?

## Prif Weithgaredd Creu Arddangosfa 30 munud

- Dywedwch wrth y grwpiau y bydd pob grŵp yn gwneud poster arddangos er mwyn **hysbysu** pobl eraill ynglŷn â'r hyn y maent wedi ei ddysgu am deithio llesol dros gyfnod y prosiect.
- Gofynnwch i'r disgyblion ystyried yr holl wybodaeth y gallant ei chynnwys. Cyfeiriwch hwy at eu llyfrau prosiect / gwaith er mwyn dod o hyd i ffeithiau a gwybodaeth bellach ac, os ydych yn dymuno, lluniwch restr dosbarth o'r mathau o gynnwys y gallant ei arddangos.
- Dosbarthwch yr addunedau o'r wers ddiwethaf ynghyd â'r ffurflenni asesiad athro a chyfoedion a gwahoddwch y disgyblion hefyd i'w defnyddio yn eu harddangosfa os ydynt yn dymuno gwneud hynny.
- Rhowch 20 munud i'r disgyblion lunio eu harddangosfa a dywedwch wrthynt y bydd yn rhaid iddynt ddefnyddio'r holl sgiliau cyfathrebu a gwaith grŵp effeithiol y maent wedi eu hymarfer er mwyn gweithio'n effeithlon.
- Rhowch 10 munud i'r grwpiau gynllunio cyflwyniad 1-2 munud o hyd am eu harddangosfa y gellir ei gyflwyno i'r Pennaeth. Gofynnwch i'r myfyrwyr edrych ar eu targed personol ar eu taflen hunanasesu a gweld sut y gallant ddatblygu hyn yn eu cyflwyniad.

## Dosbarth Cyfan Cyflwyno Arddangosfa 20 munud

- Efallai y byddwch am glywed pob grŵp fel dosbarth cyfan, neu rannu'r dosbarth yn dair adran (dau grŵp ymhob adran) fel y gall grwpiau gyflwyno i grŵp arall.

DEWISOL: Estynnwch wahoddiad i lywodraethwyr yr ysgol / aelodau o ddosbarth arall / y cyngor ysgol / uwch dîm rheoli i ddod i wrando ar y cyflwyniadau (gall y gwahoddedigion naill ai ymuno â'r dosbarth cyfan neu rannu rhwng y grwpiau).

- Cyn eu bod yn cyflwyno, dylai disgyblion ymuno mewn pâr gyda pherson o grŵp gwahanol i greu partner gwrando a chyfnewid eu taflenni hunanasesu o'r wers ddiwethaf. Yna bydd y disgyblion yn asesu i ba raddau maent wedi cyflawni eu targed personol yn ystod y cyflwyniad.
- Grwpiau yn cyflwyno. Ar ôl y cyflwyniadau bydd y partneriaid gwrando yn rhoi adborth ynglŷn ag a yw'r targedau unigol wedi eu cyflawni. Y dosbarth i arddangos eu gwaith naill ai yn y dosbarth neu mewn man canolog yn yr ysgol.

DEWISOL: Y dosbarth i ddewis grŵp i gyflwyno i'r Pennaeth, y llywodraethwyr, y cyngor ysgol, neu ddosbarth arall.

**Dathlwch waith eich disgyblion a dangos eu harddangosfeydd i weddill yr ysgol.
Gallwch weld sut y gall eich dosbarth barhau â'i daith gyda Sustrans ar ddiwedd y llyfryn hwn.**

# Adnoddau

**Gallwch ddod o hyd i'r PowerPoint, y ffilmiau a'r fersiynau electronig y gellir eu haddasu o'r Adnoddau am ddim yn www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm**

Er mwyn addysgu'r cynllun hwn byddwch angen:


| Gwers | Adnoddau sydd eu hangen | Tudalen |
|---|---|---|
| **1: Pennaeth yn Gwahardd Ceir** | • Sleidiau 1–7 y Cyflwyniad PowerPoint.<br>• Ffilm: *Pa Opsiwn trafnidiaeth yw'r iachaf?* Mae gan y ffilm lais-drosodd Cymraeg. Dewch o hyd i'r ffilm yma: www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm; ar y CD; https://www.youtube.com/user/SustransLibrary; neu drwy e bost: schoolswales@sustrans.org.uk<br>• 30x Taflen Waith 1: Meddwl, Paru, Rhannu!<br>• 6x Taflen Waith 2: Diemwnt 9 (wedi ei dorri fel set o gardiau ar gyfer pob grŵp).<br>• 1x Taflen Waith 3: Cardiau Cymeriadau (wedi eu torri'n set o gardiau ar gyfer y dosbarth).<br>• 6x Taflen Waith 4: Beth fyddent yn ei ddweud? (1 i bob grŵp).<br>• 30x Taflen Waith 5: Holiadur 'Cynt'. | **t. 31-36** |
| **2: Cost y Daith i'r Ysgol** | • Sleidiau 8–13 y Cyflwyniad PowerPoint.<br>• 30x Taflen Waith 6: Sgwariau Rhesymu.<br>• 30x Taflen Waith 7: Testunau Ffynhonnell.<br>• 30x Taflen Waith 8: Dau Syniad A.<br>NEU 30x Taflen Waith 9: Dau Syniad B. | **t. 37-40** |
| **3: Beiciau yn Amsterdam** | • Sleidiau 14–16 y PowerPoint.<br>• Ffilm: *Straeon Beic o Amsterdam.* Mae gan y ffilm lais-drosodd Cymraeg. Dewch o hyd i'r ffilm yma: www.sustrans.org.uk/cymru/cwricwlwm; ar y CD; https://www.youtube.com/user/SustransLibrary; neu drwy e bost: schoolswales@sustrans.org.uk<br>• 30x Taflen Waith 10: Canllaw Rhagdybio. | **t. 41** |
| **4: Ffyrdd a Hawliau** | • Sleidiau 17–24 y Cyflwyniad PowerPoint.<br>• 30x Taflen Waith 11: Fframwaith Dysgwr.<br>• 6x Taflen Waith 12: Cynllunio eich Araith. | **t. 42-43** |
| **5: Arian yn Siarad** | • Sleid 25 y Cyflwyniad PowerPoint. | |
| **6: Ysgrifennu Areithiau** | • 30x Worksheet 13: Speech Writing. | **t. 44** |
| **7: Perfformio a Gwrando** | • 30x Taflen Waith 14: Deddf Teithio Llesol.<br>• 6x Taflen Waith 15: Awgrymiadau Gwrando (wedi eu torri allan, 1 i bob grŵp). | **t. 45-46** |
| **8: Dadl a Phleidlais** | • 6x Taflen Waith 16: Taflenni Asesiad Cyfoedion.<br>• 6x Taflen Waith 17: Taflenni Asesiad Athro.<br>• 30x Taflen Waith 18: Papur Pleidleisio.<br>• DEWISOL: Camera.<br>• DEWISOL: Blwch ar gyfer papurau pleidleisio. | **t. 47-49** |
| **9: Hunanasesu ac Ystyried** | • Sleidiau 26–32 y PowerPoint.<br>• 30x Taflen Waith 19: Hunanasesiad.<br>• 30x Taflen Waith 20: Holiadur 'Wedyn'.<br>• 30x Taflen Waith 21: Cardiau Adduned.<br>• 1x Taflen Waith 22: Ffurflen Asesiad Athro.<br>• Amlen fawr wedi ei chyfeirio at Sustrans.<br>• DEWISOL: deunyddiau o'r wers ddiwethaf. | **t. 50-54** |
| **10: Cymuned yr Ysgol** | • Sleidiau 33–35 y PowerPoint.<br>• Cardiau Adduned wedi eu llenwi.<br>• Deunyddiau arddangos.<br>• DEWISOL: asesiadau athro a chyfoedion wedi eu cwblhau. | |

Adnoddau



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 1: *Meddwl, Paru, Rhannu!*




YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 2: *Diemwnt 9*

Nodyn Athrawon: Torrwch o amgylch y siapiau hyn a rhowch set o gardiau i bob grŵp.
Anogwch y disgyblion i gwblhau'r dasg a amlinellir ar y Cyflwyniad PowerPoint.

Aer Glân

Cadw'n Heini ac Iach

Ffyrdd Diogelach

Arbed Amser

Gweithgareddau awyr agored gyda ffrindiau

Arbed Arian

Aros yn y gwely'n hwyr

Delwedd Corff

Amgylchedd y Dyfodol

# Taflen Waith 3: *Cardiau Cymeriadau*

Torrwch o amgylch y cardiau isod a rhowch un cerdyn i bob grŵp.

Eich tîm yw:

**TRIGOLION LLEOL**

Eich tîm yw:

**DISGYBLION BLWYDDYN 8**

Eich tîm yw:

**ATHRAWON ADDYSG GORFFOROL**

Eich tîm yw:

**HEDDLU LLEOL**

Eich tîm yw:

**RHIENI DISGYBLION BLWYDDYN 8**

Eich tîm yw:

**NYRSYS YSGOL**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 4: *Beth fyddent yn ei ddweud?*

Defnyddiwch y daflen hon i benderfynu a fyddai'r wybodaeth yr ydych yn ei dysgu ymhob gwers yn gwneud i'ch cymeriadau ddadlau o blaid neu yn erbyn penderfyniad y Pennaeth.

Ysgrifennwch rai rhesymau am eich penderfyniad ym mhob un o'r swigod siarad.

## Gwers 1: Pennaeth yn Gwahardd Ceir!

O Blaid / Yn Erbyn

Rhesymau:

- e.e. mae llygredd aer yn achosi 29 000 o farwolaethau cyn eu hamser yn y DU bob blwyddyn
-
-
-

## Gwers 2: Cost y Daith i'r Ysgol

O Blaid / Yn Erbyn

Rhesymau:

-
-
-
-

Beth fyddai ____________________ yn ei ddweud?

## Gwers 3: Beiciau yn Amsterdam

O Blaid / Yn Erbyn

Rhesymau:

-
-
-
-

## Gwers 4: Ffyrdd a Hawliau

O Blaid / Yn Erbyn

Rhesymau:

-
-
-
-

YMUNWCH Â'R MUDIAD

sustrans

JOIN THE MOVEMENT

Cyn

# Taflen Waith 5: *Holiadur 'Cyn'*

**Bydd pob disgybl yn cael tystysgrif gan Sustrans pan fyddwn yn derbyn eich arolwg.**

Rhowch yr arolwg disgyblion hwn i'ch athro/athrawes er mwyn ei ddychwelyd i ni ar ddiwedd y prosiect gyda'ch Holiadur 'Wedyn': Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, CF10 5AE

**1. I ba ysgol ydych chi'n mynd?**

☐

**2. Pa flwyddyn ydych chi?**

☐

**3. Beth yw eich rhyw?**

- Benyw ☐
- Gwryw ☐

**4. Sut byddwch chi fel arfer yn teithio i'r ysgol?**

(Dewiswch un opsiwn)

- Beicio ☐
- Cerdded ☐
- Sgwtera / sglefrio ☐
- Parcio a cherdded / Parcio a beicio ☐
- Bws / Trên ☐
- Car ☐

**5. Sut byddwch chi fel arfer yn teithio i leoedd eraill?**

(e.e. i dy ffrindiau, ymarfer chwaraeon)

- Beicio ☐
- Cerdded ☐
- Sgwtera / sglefrio ☐
- Parcio a cherdded / Parcio a beicio ☐
- Bws / Trên ☐
- Car ☐

**6. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol ynglŷn â'ch sgiliau llafaredd?**

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** | Rwy'n hyderus i gyflwyno syniadau i'r dosbarth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** | Gallaf ganfod gwybodaeth a syniadau drwy wrando | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** | Gallaf drafod safbwyntiau gwahanol a thrafod ffyrdd ymlaen mewn gwaith grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** | Gallaf amddiffyn safbwynt gyda gwybodaeth a rhesymau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e.** | Gallaf ymateb yn gadarnhaol i farn pobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**7. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol ynglŷn â theithio?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| **i.** Rwy'n mwynhau beicio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ii.** Rwy'n mwynhau cerdded | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **iii.** Mae'n well gen i deithio mewn car | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **iv.** Mae'n well gen i deithio mewn modd llesol oherwydd y manteision i iechyd a ffitrwydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **v.** Rwy'n hoffi cerdded a beicio oherwydd dim ond arnaf fi fy hun y mae'n rhaid i mi ddibynnu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **vi.** Ni fyddaf yn meddwl am sut yr wyf yn teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **vii.** Byddwn yn newid y ffordd rwy'n teithio i fod yn fwy llesol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **viii.** Byddwn yn newid y ffordd rwy'n teithio am resymau amgylcheddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **ix.** Nid wyf eisiau newid y ffordd rwy'n teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill am eich barn a'ch syniadau ynglŷn â sut yr ydych yn teithio:**



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 6: *Sgwariau Rhesymu?*

**Beth yw diben sefydliad Sustrans?**

**Beth yw neges y posteri i ni?**

**Beth allaf i ei weld yn y posteri?**



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 7: *Testunau Ffynhonnell*

## Ffynhonnell A

### Mae'r daith i'r ysgol yn costio £2 biliwn i rieni

(Talfyrrwyd o www.sustrans.org.uk)
10 Mehefin 2014

Gallai rhieni sy'n gyrru eu plant mewn car i'r ysgol arbed o £642 y flwyddyn ar gyfartaledd. Gyda'i gilydd gallai rhieni ledled Prydain arbed swm syfrdanol o £2 biliwn pe byddent yn cael gwared ar y car a beicio neu gerdded i'r ysgol yn lle hynny.

Datgelir y ffigyrau hyn yn ystod Wythnos Beicio i'r Ysgol flynyddol Sustrans. Nod yr Wythnos yw hyrwyddo manteision beicio, ynghyd â cherdded a sgwtera, i'r ysgol er mwyn lleihau rhai o'r 11+ miliwn o deithiau car a wneir yn ddyddiol rhwng y cartref a'r ysgol mewn ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae gweithgaredd corfforol ymhlith pobl ifanc ar y lefel isaf erioed gydag ystadegau'n dangos bod 28% o blant o dan 16 oed nawr dros bwysau neu'n ordew. Gall mabwysiadu ffyrdd iachach o deithio i'r ysgol, megis beicio, cerdded a sgwtera helpu i dorri'r cylch o anweithgaredd.

Dywedodd Claire Francis, Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd yn Sustrans: "Mae manteision ariannol ac iechyd anferth i blant a rhieni o ddewis beicio, sgwtera neu gerdded i'r ysgol, yn hytrach na gyrru. Gyda nifer o bobl yn teimlo'r wasgfa ariannol, gall gadael y car adref fod yn ffordd ratach a mwy pleserus i gyrraedd gatiau'r ysgol."

## Ffynhonnell B



### Mae'r daith i'r ysgol yn Costio ffortiwn!

(Talfyrrwyd o www.sustrans.org.uk)
3 Mawrth 2014

Pob tro y caiff plentyn ei yrru mewn cerbyd i'r ysgol gynradd ac yn ôl adref bydd ei gar yn rhyddhau gwerth 84 balŵn o CO2 i'r atmosffêr. Mae teithiau i'r ysgol mewn car yn gyfrifol am ryddhau dros 363,075 tunnell fetrig o CO2 i'r atmosffêr bob blwyddyn, gan gyfranu at newid hinsawdd.

Mae ymchwil Sustrans yn awgrymu os bydd plentyn yn cael ei yrru i'r ysgol mewn car bob dydd y bydd yn creu gwerth 183,379 balŵn o CO2 dros gyfnod ei yrfa ysgol. Mae hynny'n cyfateb i 84 balŵn bob dydd.


Eleni mae 1,520 o ysgolion wedi cytuno i gymryd rhan yn Big Pedal 2014, cystadleuaeth i gael pobl ifanc i deithio'n llesol. Bydd y disgyblion hyn yn gwneud cannoedd o filoedd o deithiau ar feic a sgwter dros gyfnod o 10 diwrnod. Y llynedd gwnaed 847,725 o deithiau ar feic a sgwter gan deuluoedd gan arbed 704 tunnell fetrig o CO2 - neu 52,800,000 balŵn - rhag cael eu rhyddhau i'r atmosffêr pe bai'r holl deithiau hyn wedi eu gwneud mewn car.

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 8: *Dau Syniad A*

Yn eich grwpiau byddwch yn defnyddio sgiliau **darllen a deall** a **dod i gasgliadau** i ganfod a dewis gwybodaeth ysgrifenedig.  Mae angen i chi hefyd wrando ar eich gilydd er mwyn gwneud **penderfyniadau** fel grŵp i ddewis pwyntiau allweddol a **phenderfynu beth sydd fwyaf pwysig i chi.**

<table>
<tr><td colspan="2">Mae eich dwy ffynhonnell yn ymdrin â phwnc y daith i'r ysgol.</td></tr>
<tr><td>Trafodwch a dewiswch bwyntiau allweddol o Ffynhonnell A:<br><br>1. Mae rhieni'n arbed arian os nad ydynt yn gyrru eu plant mewn car i'r ysgol.<br><br>2.</td><td rowspan="2">Cymharu a chyfuno:<br><br>a) Trafodwch fel grŵp beth ydych chi'n feddwl yw'r syniad mwyaf pwysig am y daith i'r ysgol o'r ddwy ffynhonnell.<br>b) Defnyddiwch y gofod isod i egluro'r syniad hwn yn eich geiriau eich hunain.</td></tr>
<tr><td>Trafodwch a dewiswch bwyntiau allweddol o Ffynhonnell B:<br><br>1.<br><br>2.</td></tr>
</table>



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 9: *Dau Syniad B*

Yn eich grwpiau byddwch yn defnyddio sgiliau **darllen a deall** a **dod i gasgliadau** i leoli a dewis gwybodaeth ysgrifenedig. Mae angen i chi hefyd **wrando** ar eich gilydd er mwyn gwneud **penderfyniadau** fel grŵp i ddewis pwyntiau allweddol a **phenderfynu beth sydd fwyaf pwysig i chi.**

<table>
<tr><td colspan="2">Mae eich dwy ffynhonnell yn ymdrin â phwnc y daith i'r ysgol.</td></tr>
<tr><td>Trafodwch a dewiswch bwyntiau allweddol o Ffynhonnell A:</td><td rowspan="2">Cymharu a chyfuno:<br>Fel grŵp, defnyddiwch eich geiriau eich hun i ysgrifennu'r ddau syniad pwysicaf y mae eich grŵp wedi eu dysgu am y daith i'r ysgol.</td></tr>
<tr><td>Trafodwch a dewiswch bwyntiau allweddol o Ffynhonnell B:</td></tr>
</table>





YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 10: *Canllaw Disgwyliad*

Nod: Dysgu am ddiwylliant teithio yn Amsterdam.

Ysgrifennwch **cywir** neu **anghywir** yn y blychau isod.

| Datganiad | Cyn gwylio'r ffilm rydym ni'n meddwl bod y datganiad hwn yn: | Ar ôl gwylio'r ffilm rydym ni'n meddwl bod y datganiad hwn yn: | Ein tystiolaeth yn y ffilm oedd: |
|---|---|---|---|
| Ni chaniateir ceir yn Amsterdam. | | | |
| Mae beicio yn anarferol iawn yn Amsterdam. | | | |
| Fe wnaeth pobl Amsterdam brotestio ynglŷn ag adeiladu ffyrdd mawr drwy ganol y ddinas. | | | |
| Mae'n anghyfreithlon i reidio beic ar y ffordd yn Amsterdam os ydych dan 13 oed. | | | |
| Mae'n bosibl cyfrif mwy na 900 o bobl yn beicio drwy gyffordd mewn un munud. | | | |
| Gall pobl hŷn a neiniau a theidiau ond teithio ar feiciau trydan. | | | |
| Mae pobl yn Amsterdam yn falch o'u system drafnidiaeth. | | | |





YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 11: *Fframwaith Dysgwr*

Fel grŵp dewiswch eich meini prawf llwyddiant ar gyfer eich araith o'r tabl o ddatganiadau isod. Bydd eich athro yn asesu pa mor dda yr ydych yn cyflawni'r meini prawf hyn mewn trafodaeth grŵp.

Er enghraifft, os ydych yn dewis 'Gallaf amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau', bydd eich athro/athrawes yn asesu pa mor dda yr ydych yn defnyddio gwybodaeth a rhesymau i amddiffyn safbwynt eich cymeriad yn eich cyflwyniad a'r drafodaeth.

| | |
|---|---|
| **8.LLS2** | Gallaf gyflwyno pynciau a syniadau'n rhesymegol, gan ddefnyddio technegau effeithiol, e.e. *strwythur clir, hanesyn i ddangos, casgliadau credadwy.* |
| **8.LLS4** | Gallaf ymateb yn gadarnhaol ac yn addas i safbwyntiau pobl eraill pan rwy'n cael fy herio. |
| **8.LLS5** | Gallaf amddiffyn dadl gyda gwybodaeth a rhesymau, e.e. *wrth chwarae rôl neu mewn dadl.* |
| **8.LLS6** | Gallaf ddefnyddio ystod o dreigladau'n gywir. |
| **8.LLG1** | Gallaf ymateb yn gadarnhaol ac ystyrlon i syniadau newydd a safbwyntiau gwahanol. |
| **8.LLG3** | Gallaf wrando ar wybodaeth a syniadau (ar sgrîn neu'n fyw) a nodi sut mae tystiolaeth yn cael ei defnyddio, e.e. *i amddiffyn barn,* neu ei chamddefnyddio, *e.e. i gamarwain drwy orliwio.* |
| **8.LLC1** | Gallaf gymryd amrywiaeth o rolau, e.e. *trefnu, rhoi camau gweithredu ar waith,* mewn cyd-destunau grŵp mwy ffurfiol, e.e. *wrth weithio gydag oedolion a chyfoedion anghyfarwydd.* |
| **8.LLC2** | Gallaf drafod safbwyntiau cyferbyniol, a thrafod y camau nesaf. |

# Taflen Waith 12: *Cynllunio Eich Araith*

**Adran A. Darllenwch drwy'r casgliad o ddatganiadau Fframwaith Dysgwr ar Daflen Waith 11 ac, fel grŵp, dewiswch feini prawf llwyddiant ar gyfer eich trafodaeth. Bydd eich athro/athrawes yn asesu eich gwaith grŵp gan ddefnyddio'r meini prawf hyn.**

Ein meini prawf llwyddiant yw:


1. ..........................................................................................
2. ..........................................................................................
3. ..........................................................................................
4. ..........................................................................................

**Adran B. Gweithiwch fel grŵp i lenwi'r adran hon**

1. **Penderfynwch:** A fydd eich grŵp yn dadlau **o blaid** neu **yn erbyn** penderfyniad y Pennaeth?

   "Byddwn yn dadlau …………….. penderfyniad y pennaeth"

2. Beth fyddwch chi'n ei ddweud? Ysgrifennwch bwynt y gallwch ei wneud yn eich dadl ym mhob un o'r swigod siarad isod.



| Person 1 | Person 2 | Person 3 | Person 4 |
|---|---|---|---|
| Enw:…………………....... | Enw:…………………....... | Enw:…………………....... | Enw:…………………....... |

3. Pwy fydd yn ei ddweud? Ysgrifennwch enwau yn y bylchau.

(GWEITHGAREDD YM ESTYNNOL: ystyriwch ym mha drefn y dylech gyflwyno eich pwyntiau – beth fydd fwyaf effeithiol?)

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 13: *Ysgrifennu Araith*

## Sampl o agoriad araith:

*"Helô, Severn Suzuki ydw i yn siarad ar ran ECO, y Sefydliad Plant Amgylcheddol. Gr p o bobl ifanc deuddeg a thair ar ddeg oed ydym ni o Ganada sy'n ceisio gwneud gwahaniaeth: Vanessa Suttie, Morgan Geisler, Michelle Quigg a fi. Gwnaethom godi'r holl arian ein hunain i deithio chwe mil o filltiroedd i ddod i ddweud wrthych chi'r oedolion bod yn rhaid i chi newid eich ffyrdd.*

*Nid oes gennyf unrhyw agenda cudd wrth ddod yma heddiw. Rwy'n brwydro dros fy nyfodol. Nid yw colli fy nyfodol yn debyg i golli etholiad neu ychydig bwyntiau ar y farchnad stoc. Rydw i yma i siarad ar ran yr holl genedlaethau sydd i ddod. Rydw i yma i siarad ar ran y plant sy'n newynu ledled y byd nad oes neb yn clywed eu llefain. Rydw i yma i siarad am yr anifeiliaid dirifedi sy'n marw ym mhob rhan o'r blaned hon gan nad oes ganddynt unman arall i fynd.*

*Ni allwn fforddio peidio cael ein clywed."*

## Rhai enghreifftiau i'ch helpu i ddechrau ar eich araith:

*"Fel swyddogion heddlu rydym ni'n credu bod y Pennaeth yn gwbl gywir. Ein pryder cyntaf bob amser yw diogelwch y cyhoedd ac nid oes un perygl sy'n fwy i bobl ifanc na cheir. Mae ceir yn lladd. Edrychwch ar y ffeithiau… "*

*"Mae gan heddlu lleol fel ni bryderon mawr ynglŷn â phenderfyniad y Pennaeth. Y peth olaf yr ydym am ei weld yw pobl ifanc yn loetran ar y strydoedd gan achosi problemau ar eu ffordd adref o'r ysgol…"*

*"Bydd unrhyw riant sy'n poeni am ddyfodol eu plant yn cefnogi'n llwyr benderfyniad y Pennaeth. Rydym eisiau i'n plant etifeddu planed iach…"*

*"Mae hwn yn benderfyniad gwallgof. Mae'n gwbl anymarferol i ddisgwyl i rieni prysur fel fi i beidio gallu gyrru at gatiau'r ysgol ! Ychydig ddyddiau'n ôl fe anghofiodd fy merch ei gwisg addysg gorfforol! Dychmygwch pe na bawn wedi mynd ag ef i'r ysgol iddi!"*

## Cofiwch ddefnyddio:

| | Ticiwch os ydych yn defnyddio hyn yn eich araith |
|---|---|
| Llais eich cymeriad | |
| Ffeithiau o'ch Ymchwil | |
| Eich maen prawf llwyddiant eich hun: ........................................................................................ | |
| Eich maen prawf llwyddiant eich hun: ........................................................................................ | |

## Gwrando ac Adolygu

Fel grŵp, perfformiwch eich areithiau i'ch gilydd a gwrandewch ar araith pawb.
Aseswch pa mor dda y maent yn cyflawni eu meini prawf llwyddiant eu hunain.

- Beth maent yn ei wneud yn dda?
- Beth allent ei wella?

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 14: *Deddf Teithio Llesol*

1. **Oes unrhyw rai o'r awgrymiadau isod yn datrys y problemau yr ydych yn eu hwynebu i deithio'n llesol i'r ysgol?**




2. **Meddyliwch am eich atebion eich hun** –
beth arall allai'r cyngor ei wneud i'w gwneud hi'n haws i chi deithio'n llesol?

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 15: *Awgrymiadau Gwrando*

Torrwch y cardiau hyn a rhowch set i bob grŵp.  Mae angen i'r disgyblion ateb y cwestiwn ar eu cerdyn awgrym er mwyn rhoi adborth i'r siaradwr.

Awgrymiadau cyntaf:

**Beth mae iaith gorfforol y siaradwr yn ei awgrymu?**

**Beth mae tôn a lefel llais y siaradwr yn ei awgrymu?**

**I le mae'r siaradwr yn edrych?  Beth yw effaith hyn?**

**Beth mae iaith gorfforol gweddill y grŵp yn ei awgrymu?**

Awgrymiadau estynedig:

**Pa dechnegau perswadiol mae'r siaradwr yn eu defnyddio?**

**Pa gwestiynau allai'r grŵp eu gofyn?**

**Oes unrhyw ffeithiau neu resymau eraill y gallai'r siaradwr eu defnyddio?**

**Pa mor bwerus yw diweddglo'r cyflwyniad?**

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 16: *Asesiad Cyfoedion*

| Grŵp:<br><br>Cymeriad: | Ardderchog | Da | Angen datblygu |
|---|---|---|---|
| Ein meini prawf llwyddiant (edrychwch ar Daflen Waith 12 i atgoffa eich hun):<br><br>1. | | | |
| 2. | | | |
| 3. | | | |
| 4. | | | |
| Beth oedd cryfder mwyaf y grŵp? | | | |
| Beth allai'r grŵp ei wella? | | | |

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 17: *Asesiad Athro*

| Asesiad Athro ar gyfer grŵp (enwau'r cymeriadau): | |
|---|---|
| Meini prawf llwyddiant (a ddewiswyd gan y grŵp - gweler Taflen Waith 12): | Sylwadau athro/awes |
| 1. | |
| 2. | |
| 3. | |
| 4. | |
| Sylwadau ychwanegol: | |

# Taflen Waith 18: *Papurau Pleidleisio*

Torrwch hwy a rhoi un i bob disgybl.

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

Dylai ceir gael eu gwahardd rhag dod o fewn 1 milltir i'r ysgol?

Dylai ☐

Na Ddylai ☐

# Taflen Waith 19: *Hunanasesiad*

Fel grŵp, fe wnaethom osod y meini prawf llwyddiant canlynol ar gyfer y prosiect (cyfeiriwch yn ôl at Daflen Waith 11):

| |
|---|
| 1. |
| 2. |
| 3. |
| 4. |
| Ychwanegwch eich lluniau yma neu ysgrifennwch enwau aelodau eich grŵp: |

Hunanasesiad: nodwch beth oedd yn dda a meysydd ar gyfer gwella gan ddefnyddio’r canlynol:

| |
|---|
| Meini prawf llwyddiant y grŵp |
| Asesiad cyfoedion |
| Asesiad athro |
| Fy asesiad cyffredinol |

# Wedyn Taflen Waith 20: *Holiadur 'Wedyn'*

**Bydd pob disgybl yn cael tystysgrif gan Sustrans pan fyddwn yn derbyn eich arolwg.**

Llenwch hwn ar gyfer eich athro/athrawes i'w ddychwelyd gyda'r holiadur 'Cynt' a rhoi cyfle i'ch ysgol ennill arddangosfa driciau gan bencampwr BMX.
Dychwelwch i: Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd CF10 5AE

**1. I ba ysgol ydych chi'n mynd?**

☐

**2. Ym mha flwyddyn ydych chi?**

☐

**3. Beth yw eich rhyw?**

- Benyw ☐
- Gwryw ☐

**4. Sut byddwch chi fel arfer yn teithio i'r ysgol?**

(Dewiswch un opsiwn)

- Beicio ☐
- Cerdded ☐
- Sgwtera / sglefrio ☐
- Parcio a cherdded / Parcio a beicio ☐
- Bws / Trên ☐
- Car ☐

**5. Sut byddwch chi'n teithio pan na fyddwch yn teithio i/o'r ysgol?**

(e.e. i dŷ ffrindiau, ymarfer chwaraeon)

- Beicio ☐
- Cerdded ☐
- Sgwtera / sglefrio ☐
- Parcio a cherdded / Parcio a beicio ☐
- Bws / Trên ☐
- Car ☐

**6. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol ynglŷn â'ch sgiliau llafaredd?**

| | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| **a.** Rwy'n hyderus i gyflwyno syniadau i'r dosbarth | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** Gallaf ganfod gwybodaeth a syniadau drwy wrando | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** Gallaf drafod safbwyntiau gwahanol a thrafod ffyrdd ymlaen mewn gwaith grŵp | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** Gallaf amddiffyn safbwynt gyda gwybodaeth a rhesymau | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **e.** Gallaf ymateb yn gadarnhaol i farn pobl eraill | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

## 7. I ba raddau ydych chi'n cytuno gyda'r datganiadau canlynol ynglŷn â theithio?

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| i. | Rwy'n mwynhau beicio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ii. | Rwy'n mwynhau cerdded | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| iii. | Mae'n well gen i deithio mewn car | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| iv. | Mae'n well gen i deithio mewn modd llesol oherwydd y manteision i iechyd a ffitrwydd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| v. | Rwy'n hoffi cerdded a beicio oherwydd dim ond arnaf fi fy hun y mae'n rhaid i mi ddibynnu | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| vi. | Ni fyddaf yn meddwl am sut yr wyf yn teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| vii. | Byddwn yn newid y ffordd rwy'n teithio i fod yn fwy llesol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| viii. | Byddwn yn newid y ffordd rwy'n teithio am resymau amgylcheddol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| ix. | Nid wyf eisiau newid y ffordd rwy'n teithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| x. | Rwy'n ystyried effeithiau fy mhenderfyniadau ynglŷn â theithio | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

**Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill am eich barn a'ch syniadau ynglŷn â sut yr ydych yn teithio:**


**Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill ynglŷn â'ch profiad wrth gyflawni'r prosiect hwn:**

# Taflen Waith 21: *Cerdyn Adduned*

## Beth yw eich cam nesaf?

**Beth allwch chi ei wneud i deithio'n fwy llesol?**
Mae'r addunedau gorau yn gyraeddadwy, realistig a phendant,
e.e. 'Byddaf yn cerdded i'r ysgol ddwywaith yr wythnos';
'Byddaf yn beicio i'r clwb llyfrau ar Ddydd Mawrth'.

## Ysgrifennwch eich addunedau yn yr ôl troed isod



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT

# Taflen Waith 22: *Ffurflen Gwerthusiad Athro*

Cwblhewch a dychwelwch i Sustrans Cymru, 123 Stryd Bute, Caerdydd, CF10 5AE gyda'ch arolwg disgyblion er mwyn derbyn tystysgrif ar gyfer pob disgybl ac i gynnwys eich ysgol mewn cystadleuaeth i ennill sioe driciau BMX.

**Eich enw:…………………………………… Eich ysgol:…………………………………………**

**Sut ddaethoch chi i wybod am yr adnodd hwn?..........................................................**

1. **Sut wnaethoch chi ddefnyddio'r adnodd?**
   **Cylchwch: a) defnyddio elfennau b) defnyddio gwersi unigol c) addysgu fel cynllun**

   **Gwybodaeth ychwanegol ynglŷn â defnydd: ..........................................................**

2. **Beth oedd fwyaf defnyddiol ynglŷn â'r adnodd?**

……………………………………………………………………………………………………

3. **Pa mor gryf ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ynglŷn â'r adnodd hwn?**

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** | Fe apeliodd at y disgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** | Fe lwyddodd i fodloni canlyniadau'r FfRhLI | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** | Roedd yn berthnasol i'r disgyblion | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **d.** | Byddwn yn ei argymell i gydweithiwr | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

4. **Pa mor gryf ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno ag effeithiau canlynol yr adnodd hwn?**

| | | Cytuno'n gryf | Cytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|---|
| **a.** | Mae fy nisgyblion wedi newid eu hagweddau tuag at deithio ers iddynt ddefnyddio'r adnodd hwn | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **b.** | Mae wedi fy ngwneud i'n fwy tebygol i annog a chefnogi fy nisgyblion i deithio'n llesol | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |
| **c.** | Yr wyf wedi newid fy agwedd fy hun tuag at deithio ar ôl defnyddio'r adnodd | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

5. **Ychwanegwch unrhyw sylwadau eraill:**

**Mae Sustrans yn chwilio am athrawon a fyddai efallai'n dymuno cymryd rhan fel astudiaethau achos enghreifftiol. A fyddech chi'n hoffi i ni gysylltu â chi fel ymarferydd FfLlRh enghreifftiol: Byddwn / Na fyddwn**

Diogelu Data

Diolch am lenwi'r holiadur hwn. Defnyddir y wybodaeth a gesglir drwy'r arolwg hwn i werthuso a datblygu ein gwaith addysgol a'n cynorthwyo i weld ei effaith. Caiff y wybodaeth ei dienwi cyn cael ei rhannu gydag unrhyw drydydd parti tu allan i Sustrans. Efallai y byddwn yn cynnwys rhai o'ch sylwadau a dyfyniadau dienw mewn adroddiadau, a allai gael eu rhannu. Yn ogystal, efallai y defnyddir canlyniadau unrhyw ddadansoddiad i ddylanwadu a chefnogi cynigion lleol a chenedlaethol eraill am gyllid a'u defnyddio mewn datganiadau i'r wasg ac adroddiadau eraill a gyhoeddir gan Sustrans. Drwy ddychwelyd yr arolwg hwn rydych yn cytuno i Sustrans ddefnyddio'r wybodaeth fel y nodir uchod ac i rannu canlyniadau dienw.

# Parhau â'ch Taith Sustrans

Ydych chi wedi eich ysbrydoli i gymryd eich camau nesaf gyda Sustrans? Mae llawer o ffyrdd y gallwch chi a'ch disgyblion chwarae rhan. Gweler isod am gyfleoedd sy'n cynnwys adnoddau wedi eu cysylltu i'r cwricwlwm ar gyfer yr ystafell ddosbarth a gweithgareddau cyffrous ac ymarferol i annog teithio llesol. Cewch wybod rhagor yn www.sustrans.org.uk/cymru/addysg



## Cefnogaeth ymarferol

Mae gennym ystod o ddeunyddiau i gefnogi athrawon, disgyblion a rhieni i gynyddu teithio llesol i'r ysgol. Mae ein deunyddiau am ddim yn cynnwys canllawiau a thaflenni gwybodaeth. Mae ein swyddogion ysgolion Sustrans hefyd yn gweithio'n uniongyrchol mewn ysgolion a cholegau i greu diwylliant o deithio'n llesol a rhoi'r sgiliau a'r hyder i bobl ifanc fynd ar eu taith eu hunain.



## The Big Pedal

The Big Pedal yw her feicio a sgwtera fwyaf y DU. Bob gwanwyn bydd ysgolion yn cystadlu i weld pwy all gael y nifer mwyaf o ddisgyblion, teuluoedd ac aelodau staff i gyrraedd yr ysgol ar ddwy olwyn. Bydd yr ysgolion yn cystadlu i ennill gwobrau gwych o sioeau stynt beiciau i gyfleusterau storio beiciau. Ewch i bigpedal.org.uk/cym/resources.



## Adnoddau Cwricwlaidd

Mae Sustrans yn cynhyrchu ystod o adnoddau cwricwlaidd er mwyn trafod a hyrwyddo teithio llesol a theithiau cynaliadwy. Cynllunir yr adnoddau addysgol ar gyfer cwricwlwm ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU ac maent yn bodloni gofynion statudol mewn ystod o bynciau ar lefel cynradd ac uwchradd.

# Diolchiadau

Mae Sustrans yn ddiolchgar i'r holl athrawon, ysgolion a phobl ifanc sydd wedi bod â rhan mewn datblygu'r adnodd hwn. Diolch yn arbennig i Aimee Jones ac Angela Jones am ddatblygu'r Cynllun Gwaith. Diolch yn fawr hefyd i Paul Booth, Lianne Francis, Julia Horton, Caroline Mathews, Meleri Owen, Kirsty Rimmer a Suzanne Warren am eu hawgrymiadau a'u barn.

**Cyswllt:**
Sustrans Cymru,
123, Stryd Bute,
Caerdydd CF10 5AE


Ffôn: 029 2065 0602
E-bost: schoolswales@sustrans.org.uk

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT



Rhan ar Ffordd
On road section
Rhan heb Draffig
Traffic-free sections
Llwybrau Rhanbarthol Dethol
Selected regional routes
Ffin
Border
Trefi â Gorsafoedd Rheilffordd
Towns with railway stations
Rhifau Llwybrau Cenedlaethol
National Cycle Network route number
Rhifau Llwybrau Rhanbarthol
Regional route number
8 42 Lôn Las Cymru
81 Lôn Las Cambria
82 Lôn Teifi
4 47 Lôn Geltaidd
Celtic Trail
5 Llwybr Arfordir Gogledd Cymru
North Wales Coast Route
25 Dolen Maesyfed
Radnor Ring
DUBLIN TO HOLYHEAD
BELFAST TO LIVERPOOL (BIRKENHEAD)
Caergybi
Holyhead
Llangefni
Bangor
Conwy
Llandudno
Rhyl
Prestatyn
Bae Colwyn
Colwyn Bay
Llanelwy
St Asaph
Y Fflint
Flint
Caer
Chester
Bethesda
Caernarfon
Dinbych
Denbigh
Rhuthun
Ruthin
Betws-y-Coed
Eryri
Snowdonia
Wrecsam
Wrexham
Llangollen
Y Bala
Bala
Trawsfynydd
Porthmadog
Harlech
Croesoswallt
Oswestry
Dolgellau
Shrewsbury
Abermaw
Barmouth
Y Trallwng
Welshpool
Machynlleth
Tywyn
Drenewydd
Newtown
Aberystwyth
Llanidloes
Rhaeadr Gwy
Rhayader
Llandrindod
Llandrindod Wells
Aberaeron
Tregaron
Llanfair-ym-Muallt
Builth Wells
Aberteifi
Cardigan
Abergwaun
Fishguard
Llanbedr Pont Steffan
Lampeter
Y Gelli Gandryll
Hay-on-Wye
Crymych
Castell Newydd Emlyn
Newcastle Emlyn
Aberhonddu
Brecon
Ty Ddewi
St David's
Hwlffordd
Haverfordwest
Caerfyrddin
Carmarthen
Llandeilo
Bannau Brycheiniog
Brecon Beacons
Y Fenni
Abergavenny
Cross Hands
Brynmawr
Trefynwy
Monmouth
Merthyr Tudful
Merthyr Tydfil
Cydweli
Kidwelly
Llanelli
Clydach
Castell-Nedd
Neath
Pont-y-pŵl
Pontypool
Cas-Gwent
Chepstow
Dinbych y Pysgod
Tenby
Porth Tywyn
Burry Port
Cwmbran
Ferndale
Cil-y-Coed
Caldicot
Penfro
Pembroke
Doc Penfro
Pembroke Dock
Tre-gŵyr
Gowerton
Port Talbot
Casnewydd
Newport
Abertawe
Swansea
Caerffili
Caerphilly
Pontypridd
Pen-y-bont ar Ogwr
Bridgend
Caerdydd
Cardiff
Exmoor
Scale in Miles
0 10 20 30 40
0 20 40 60
Scale in Kilometres
566 5 8 84 82 31 818 81 25 43 42 46 4 47 49

YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT



YMUNWCH Â'R MUDIAD
sustrans
JOIN THE MOVEMENT